Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ddraft



Gaeaf 2024

Ariennir gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda chefnogaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Funded by the UK Government through the Shared Prosperity Fund, with support from Carmarthenshire County Council

# Rhagair

“Fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, mae’n bleser gennym gyflwyno ein strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y sir. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar y rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i sefydlu sylfaen gref sy'n gwella'r lleoedd rydym yn byw ynddynt tra'n sicrhau datblygu cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Sir Gaerfyrddin yn esblygu'n barhaus, gydag adfywio a thrawsnewid yn cael eu hysgogi gan boblogaeth gynyddol a thirweddau amrywiol. Mae'r newidiadau hyn yn cyflwyno heriau a chyfleoedd y mae'n rhaid inni eu cofleidio. Drwy greu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd a glas wedi’i ddylunio’n dda, gallwn wella’r broses o addasu i’r hinsawdd, cefnogi bioamrywiaeth, a chyfrannu at iechyd a lles ein cymunedau.

Amlygodd pandemig rôl hanfodol mannau gwyrdd lleol wrth hybu iechyd a lles. Daeth mynediad i’r awyr agored ac awyr iach yn bwysicach nag erioed, gan bwysleisio’r manteision nid yn unig i iechyd corfforol ond hefyd i les meddyliol. Mae dod â natur i fywyd bob dydd yn gwella hwyliau, yn lleihau straen, ac yn meithrin ymlacio, gan wella ansawdd bywyd yn y pen draw. Mae’r strategaeth hon yn cynnig fframwaith ar gyfer adferiad gwyrdd, gan flaenoriaethu llesiant cymunedol drwy integreiddio pobl, lle a natur. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at fanteision hanfodol seilwaith gwyrdd a glas a'i rôl yn sbarduno twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin. Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i fynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Mae’r strategaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin ymagwedd bartneriaeth tuag at greu rhwydwaith cryf a rhyng-gysylltiedig o seilwaith gwyrdd a glas ar draws y sir–nod yn ein cynllun llesiant lleol.

Rhaid i Sir Gaerfyrddin addasu i ofynion byd sy'n newid. Mae stiwardiaeth amgylcheddol hirdymor yn hanfodol i sicrhau bod ein mannau trefol a gwledig yn darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gan feithrin cymunedau bywiog a ffyniannus. Drwy fabwysiadu dull seilwaith gwyrdd a glas, gall cymunedau ar draws y sir ddod yn fwy cynaliadwy, gwydn, a lle y gellir byw ynddynt, gan gyfrannu at amgylchedd, economi a chymdeithas iachach, a darparu buddion parhaol i’n holl ddinasyddion.Drwy’r strategaeth hon, ein nod yw dangos llwybr clir tuag at ddod yn wyrddach, yn fwy gwydn, ac yn fwy llewyrchus drwy fynd i’r afael â heriau allweddol a harneisio cyfleoedd a fydd yn ein galluogi i addasu a ffynnu.”

Cyng. Darren Price

Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Dr. Andrew Cornish

Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

“Rwy'n falch iawn o gyflwyno Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin sy'n ategu'r themâu sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Datblygu Lleol 2018-33. Trwy ymgorffori egwyddorion seilwaith gwyrdd a glas o safon o fewn cynllunio defnydd tir, mae'r strategaeth hon yn dangos ein hymrwymiad i adeiladu cymunedau bywiog a chynaliadwy sy'n cydbwyso twf â gofal amgylcheddol.



Cyng. Carys Jones

Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio

Mae asedau pwysig fel parciau, afonydd, a choetiroedd nid yn unig yn gwella bioamrywiaeth a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd ond hefyd yn creu lleoedd ar gyfer cysylltiad dynol a rhyngweithio â natur, gan feithrin ymdeimlad dyfnach o *gynefin* — ymdeimlad o berthyn a dealltwriaeth o'n cysylltiad diwylliannol dwfn â'n hamgylchedd.

Fel llofnodwr i'r Siarter Creu Lleoedd Cymru, rydym wedi ymrwymo i gefnogi adfywio a datblygu economaidd wrth greu lleoedd sydd o fudd i drigolion, ymwelwyr, a'r rhai sy'n gweithio neu'n astudio yn y sir. Mae'r strategaeth hon yn gam hanfodol tuag at sicrhau dyfodol cadarn, cynhwysol a ffyniannus i Sir Gaerfyrddin.”



Cyng. Aled Vaughan Owen

Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

“ Mae Sir Gaerfyrddin wedi datgan argyfyngau Hinsawdd a Natur, gan ddangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau hanfodol hyn. Mewn ymateb, mae’r strategaeth hon yn sail i’n gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol cynaliadwy a mwy iachus—un sy’n canolbwyntio ar ysgogi adferiad gwyrdd wrth ddiwallu anghenion beunyddiol ein cymunedau.

Mae'r strategaeth flaengar hon yn darparu llwybr i greu lleoedd sy'n cydbwyso anghenion amgylcheddol â llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, gan sicrhau sir gadarn a llewyrchus am flynyddoedd i ddod.”

Rydym yn awyddus i gael eich mewnbwn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft hon i helpu i lunio a chyd-ddylunio ei chynnwys.

# Cynnwys


Trosolwg .... 1

Rhan A: Cyd-destun .... 2

Y Cefndir .... 3

Beth yw seilwaith gwyrdd a glas? .... 4

Ystod o raddfeydd .... 6

Pam mae SGG yn bwysig? .... 9

Adran B: Archwiliad a Manteision y Seilwaith Gwyrdd a Glas .... 12

Rhwydwaith SGG Sir Gaerfyrddin .... 13

Diffinio Rhwydwaith SGG Strategol Sir Gâr .... 15

Mapio Asedau SGG Ehangach .... 17

Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid .... 21

Buddion a Ddarperir gan SGG .... 27

Rhan C: Y Weledigaeth a'r Amcanion .... 28

Rhan D: Camau a Gweithredu .... 36

Cefnogi Polisi Lleol .... 37

Partneriaid Allweddol .... 38

Darparu Gwell Seilwaith Gwyrdd a Glas Gwell yn Sir Gâr a Mwy Ohono .... 39

Egwyddorion Seilwaith Gwyrdd a Glas o Ansawdd .... 39

Gosod y Raddfa .... 42

Ymyriadau Seilwaith Gwyrdd a Glas Posibl / Cyfleoedd Blaenoriaeth .... 43

Cyfleoedd Cyflawni Allweddol .... 45

Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas dan Arweiniad y Gymuned .... 46

Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas .... 47

Darparu Adnoddau .... 48

Monitro ....48

Atodiadau .... 49

Atodiad A: Amlinellu'r Angen am Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) yn Sir Gaerfyrddin ....50

Gwneud ein Cymunedau a'n Hamgylchedd yn Iach, yn Ddiogel ac yn Ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) ....51

Ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur ....59

Atodiad B: Y Cyd-destun o ran Polisi....64

Atodiad C: Safleoedd Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol ....69

Atodiad D: Teipoleg a Swyddogaeth....79

Atodiad E: Pecyn Cymorth Cyfleoedd....80

Creu Mannau Chwarae ....82

Gwella Gorchudd Coed ....88

Sefydlu Mannau Gwyrdd ar gyfer Safleoedd Hanesyddol ....91

Archwilio Adrodd Straeon Amgylcheddol....94

Dod o hyd i Fannau ar gyfer Tyfu Cymunedol ....97

Gwyrddu'r Mannau lle mae Pobl yn Byw, yn Gweithio ac yn Ymweld â Nhw .... 100

Hyrwyddo Draenio Cynaliadwy (SDCau).... 103

Diogelu a Chysylltu Mannau Arfordirol .... 107

Darparu Llwybrau Gwyrdd ar gyfer Teithio Llesol .... 111

Adfer Coridorau Glas .... 114

Ailystyried Swyddogaethau Parciau a Llecynnau Glas .... 117

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **SGG** | Seilwaith Gwyrdd a Glas |
| **SDCau** | Systemau Draenio Cynaliadwy |

# Trosolwg

Cyd-gynlluniwyd y strategaeth bresennol gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach. Mae wedi'i rannu i'r rhannau unigol canlynol er hwylustod gweithredu a hefyd hwyluso diweddariadau pan fo angen:

- **Rhan A: Cyd-destun** yn cyflwyno'r cysyniad o Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) a'r fframwaith polisi cysylltiedig yn Sir Gaerfyrddin.

- **Rhan B: Archwiliad a Manteision y Seilwaith Gwyrdd a Glas** yn ymchwilio bwysigrwydd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol SGG, a'r ystod o ddyfeisiadau sy'n addas ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir yn ein Sir. Mae'r rhan hon hefyd yn rhoi cipolwg ar Rwydwaith Strategol SGG Sir Gaerfyrddin.

- **Rhan C: Gweledigaeth ac Amcanion** yn nodi'r uchelgais hirdymor ar gyfer sicrhau darpariaeth SGG yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, gan gydnabod rôl SGG wrth hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.

- **Rhan D: Gweithredu** yn rhoi gwybodaeth am sut y caiff y weledigaeth a rennir ei chyflawni. Mae hefyd yn nodi egwyddorion sicrhau SGG o safon yn Sir Gaerfyrddin ac ystod o ymyriadau posibl wedi'u targedu at sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'n cymunedau.





# Rhan A: Cyd-destun

# Y Cefndir

Systemau seilwaith yw asgwrn cefn pob cymdeithas fodern a ffyniannus. Nid yw'r Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) yn eithriad a gellir ei ddylunio'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion cyfunol yr amgylchedd adeiledig a naturiol, gan sicrhau parhad nwyddau cyhoeddus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn gyfrwng i sicrhau datblygu cynaliadwy, gellir ystyried SGG yn rhwydwaith wedi'i gynllunio a'i reoli o asedau naturiol a lled-naturiol sy'n cysylltu ein trefi, ein pentrefi a'n cymunedau gwledig llai. Ystyrir bod y buddion amlswyddogaethol a ddarperir gan SGG yn ffactorau hanfodol i lunio lleoedd iach, drwy greu cymdogaethau deniadol sy'n wydn ac wedi ymaddasu i heriau cynaliadwyedd lleol a byd-eang.

Mae'r strategaeth bresennol yn nodi ein gweledigaeth strategol i ymwreiddio dull SGG o ran cynllunio gofodol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod nwyddau cyhoeddus yn cael eu darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, amlswyddogaetholdeb a hybu'r defnydd o atebion seiliedig ar natur lle bynnag y bo'n briodol. Yn seiliedig ar nodi'r rhwydwaith o asedau SGG sy'n cydgysylltu ein tirwedd drefol a gwledig, mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymhellach flaenoriaethau lefel uchel sydd i'w harchwilio'n fanylach ar lefel trefi, cymunedau neu safleoedd unigol, ac o bosibl mewn cynlluniau lle. Yn ei hanfod, mae'n cydnabod y dylid ystyried ein hadnoddau naturiol a lled-naturiol yn 'seilwaith' yn union fel nodweddion adeiledig, ac y byddant ond yn parhau i fod o fudd i ni os byddwn yn cynllunio'n rhagweithiol, yn buddsoddi ynddynt ac yn eu rheoli i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy.



# Beth yw seilwaith gwyrdd a glas?

Gellir diffinio SGG fel y rhwydwaith o nodweddion amlswyddogaethol, naturiol a lled-naturiol sy'n amgylchynu ac wedi'u plethu i'n tirweddau trefol a gwledig. Yn yr un modd ag y mae ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cysylltu pobl a busnesau drwy balmentydd, ffyrdd a rheilffyrdd, mae SGG yn cysylltu cymunedau a'r amgylchedd adeiledig â byd natur.

Yn draddodiadol, canolbwyntiwyd ar fuddion amgylcheddol mannau gwyrdd, fodd bynnag, un o elfennau craidd SGG 'amlswyddogaethol' yw y dylai un darn o dir wasanaethu amrywiaeth o ddefnyddwyr tir, gan ddarparu amrywiaeth o fuddion gwahanol. Felly, mae dull SGG yn cynnwys pob agwedd ar gynaliadwyedd, gan ystyried rheoli adnoddau naturiol i sicrhau bod cynllunio, rheoli a darparu mannau o'r fath yn canolbwyntio ar gyflawni nodau llesiant amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol.



Mae Polisi Cynllunio Cymru ar Leoedd Unigryw a Naturiol yn nodi bod: SGG "...yn chwarae rôl hollbwysig o ran llywio ein lleoedd a'n hymdeimlad o lesiant, ac maent yn hanfodol i ansawdd y lleoedd rydym yn byw, gweithio a chwarae ynddynt. Rhaid i'r system gynllunio gyfrannu cymaint â phosibl at ddiogelu a darparu asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd fel rhan o'r ymdrech i gyflawni amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach y gymdeithas a diwallu anghenion cymunedau lleol. Bydd gweithio mewn ffordd ragweithiol a gofodol, sy'n cysylltu â gweithgarwch ehangach awdurdodau lleol i ddiogelu a darparu seilwaith

gwyrdd, yn helpu i roi eglurder ynghylch y cyfraniad y gall y system gynllunio ei wneud.

Mae cysyniadau canolog wrth hybu SGG o safon, o ran dylunio, gweithredu a chynnal a chadw, yn cynnwys nwyddau cyhoeddus a gwasanaethau ecosystem. Gall sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at y rhain arwain at fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol i gymunedau a'r economi leol, yn ogystal â'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Os nad yw ased yn cyflawni nifer o fuddion amlwg a phenodol, nid yw'n gyson â dull SGG amlswyddogaethol.

Mae nwyddau cyhoeddus yn bethau sydd ar gael i bawb ac yr ydym i gyd yn eu rhannu a'u defnyddio. Mae enghreifftiau'n cynnwys Aer Glân, Mesurau Rheoli Llifogydd, Llwybrau Troed, Mannau Agored sydd ar gael i'r Cyhoedd. Ar y llaw arall, gwasanaethau ecosystem yw'r buddion amrywiol yr ydym yn eu cael drwy ecosystemau iach a gweithredol. Gellir eu rhannu'n bedwar math fel y dangosir yma:

| Darparu | Rheoleiddio | Diwylliannol | Cefnogi |
|---|---|---|---|
| Nwyddau materol a geir yn uniongyrchol o'r amgylchedd | Gwasanaeth au a ddarperir gan brosesau ecosystem | Buddion anfaterol sy'n seiliedig ar natur ac sy'n cyfoethogi cymdeithas | Mecanweithia u sylfaenol yr holl wasanaethau ecosystem eraill |
| Dŵr<br>Bwyd<br>Pren<br>Ynni<br>Aer | Lliniaru Llifogydd<br>Rheoli'r Hinsawdd<br>Rheoli plâu a phathogenau | Addysg<br>Hamdden<br>Estheteg<br>Treftadaeth<br>Twristiaeth | Creu Pridd<br>Cylchrediad Maetholion<br>Cynhyrchiant Sylfaenol (h.y. ffotosynthesis) |

## Ystod o raddfeydd

Gall SGG amrywio'n sylweddol o ran math, maint a swyddogaeth yn dibynnu ar y dirwedd a'r angen.

Gall gynnwys mannau bach fel gerddi preifat, rhandiroedd, gwrychoedd, ymylon glaswellt a choed a mannau llawer mwy, gan gynnwys tiroedd comin, coetiroedd a choridorau afonydd.

Gellir cyflawni gwelliannau i rwydweithiau SGG presennol neu greu asedau newydd fel rhan o ddatblygiad newydd drwy'r system gynllunio.

Yn ogystal, mae llawer o bartïon y tu hwnt i'r system gynllunio yn ymroi i wella SGG presennol ac ôl-osod asedau newydd mewn ardaloedd, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth yn wael.

O fewn cynllunio, dylid ystyried SGG ar bob graddfa, o adeiladau unigol a lefel stryd, yr holl ffordd i fyny drwy gymdogaethau i lefel hollgynhwysol, strategol. Mae llinyn wedi'i blethu sy'n ymgorffori SGG ar bob lefel yn helpu i greu cysylltiadau a gwneud symud yn haws drwy'r amgylchedd adeiledig a naturiol, ac mae hefyd yn caniatáu cydnabod materion trawsffiniol.



## Adeiladau Unigol

Gall ymyriadau SGG ar raddfa fach helpu i greu adeiladau sy'n fwy addas i fyw ynddynt. Gall toeau gwyrdd a waliau byw inswleiddio strwythurau, gan helpu i leihau'r defnydd o ynni wrth ddarparu gwell ansawdd aer, gwella estheteg a chynnig cyfle i gynhyrchu ynni, pan gânt eu dylunio gyda systemau biosolar. Gall gosod brics gwenyn a blychau ystlumod ac adar parhaol yn ystod y gwaith adeiladu wneud cartrefi yn fwy addas i natur. Gall planhigion, coed a llwyni mewn gerddi, ochr yn ochr â thramwyfeydd athraidd a systemau casglu dŵr glaw, hefyd liniaru'r perygl o lifogydd drwy amsugno a gwasgaru glawiad.





## Lefel Stryd

Gall stryd sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sy'n integreiddio SGG greu lleoedd sy'n ddiogel i gerddwyr, beicwyr a modurwyr, ynghyd â darparu cynefinoedd gwerthfawr ar gyfer bywyd gwyllt. Gellir defnyddio coed stryd fel mesur arafu traffig sydd hefyd yn meddalu nodweddion adeiledig ac yn creu diddordeb gweledol,

gan wella'r ficrohinsawdd a darparu cysgod. Mae gerddi cymunedol a nodweddion ffin llinol, fel gwrychoedd, yn ffurfio coridorau bywyd gwyllt. Gall palmentydd athraidd a systemau draenio cynaliadwy (SDCau) helpu i leihau perygl llifogydd lleol.

### Lefel Cymdogaeth

Ar lefel cymdogaeth, gall cysylltiadau teithio gwyrdd annog y defnydd o lwybrau i gerddwyr a llwybrau teithio llesol, gan helpu i leihau allyriadau wrth gefnogi cysylltedd ecolegol. Gall mannau agored cyhoeddus, fel meysydd chwarae, mannau chwarae a rhandiroedd, hybu ffyrdd egnïol o fyw ymhellach a darparu lle i gymunedau ryngweithio. Mae mannau dinesig eraill, sydd efallai wedi'u cyfuno â choetiroedd trefol, nodweddion dŵr neu byllau, yn cyfrannu ymhellach at yr adeiledd trefol ac yn meithrin cysylltiad dynol ymhlith natur. Gall pantiau a nodweddion SDCau eraill ar raddfa fawr helpu i wella ansawdd dŵr ac amddiffyn cartrefi rhag llifogydd.





### Lefel Strategol

Mae rhwydweithiau o fannau gwyrdd a glas, sy'n cynnwys cynefinoedd unigol fel glaswelltiroedd, coedwigoedd a gwlyptiroedd, nid yn unig yn darparu'r gwasanaethau ecosystem y mae cymdeithas yn dibynnu arnynt, ond maent yn sail i'n tirwedd frith. Mae parciau gwledig, safleoedd hanesyddol a mannau dynodedig fel gwarchodfeydd natur yn cynnig rhyddhad i bobl a bywyd gwyllt. Mae llawer o'r asedau hyn yn chwarae rhan allweddol wrth liniaru'r perygl o lifogydd ar draws dalgylchoedd afonydd cyfan ac yn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae cynnwys SGG mewn cynlluniau datblygu, cynlluniau lleoedd ac uwchgynlluniau yn sicrhau bod datblygiadau wedi'u plethu â rhwydwaith ehangach SGG.

# Pam mae SGG yn bwysig?

Mae SGG yn gwella'r defnydd o dir mewn modd cynaliadwy ac yn rheoli pwysau sy'n gwrthdaro â'i gilydd o ran tai, diwydiant, trafnidiaeth, amaethyddiaeth, cadwraeth natur a hamdden. Mae'n gallu cyflawni ystod o swyddogaethau trawsbynciol i gefnogi pobl a'r blaned pan gaiff ei gynllunio, ei adeiladu a'i reoli'n briodol. Mae sylfaen dystiolaeth gref sy'n cadarnhau bod SGG yn ymyrraeth effeithiol sy'n lliniaru pwysau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn enwedig pan gaiff ei weithredu mewn modd meddylgar a chyfannol.

Er bod y buddion unigol sy'n deillio o asedau SGG yn cael eu disgrifio'n ddiweddarach yn Rhan B, mae gweddill y Rhan hon yn crynhoi'r rhesymeg dros gynnal dull SGG yn Sir Gaerfyrddin a sut mae hyn yn ymateb i ofynion polisi lleol a chenedlaethol.



## Y Cyd-Destun Lleol

Mae Sir Gaerfyrddin yn elwa o dirwedd gyfoethog ac amrywiol. Fe'i nodweddir gan ei threfi a'i phentrefi bywiog, economi wledig amlwg, parciau cyflogaeth prysur a chanolfannau manwerthu, ac amgylcheddau ucheldirol, aberol ac arfordirol nodedig. Mae'r Gymraeg yn agwedd bwysig arall ar hunaniaeth a chymeriad lleol y sir, sy'n cael ei chydnabod yn gadarnle i siaradwyr Cymraeg.

Mae disgwyl i boblogaeth Sir Gaerfyrddin gynyddu i 197,218 erbyn 2043 - gan barhau i fod y nifer uchaf ond tri yng Nghymru. Gan ganolbwyntio ar arloesi, adfywio a chreu cyflogaeth, mae'r sir yn sbardun economaidd sy'n gartref i fuddsoddiadau strategol fel Pentre Awel a'r Egin, ac sy'n mwynhau cysylltiadau pellach ag economïau ehangach drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae twristiaeth a hamdden awyr agored hefyd yn sectorau allweddol, a chynhyrchodd ymwelwyr dros £596 miliwn i'r economi leol yn 2022.

## Heriau Lleol

Nid yw byw yn Sir Gaerfyrddin heb ei heriau. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol, mae tua thraean o blant ac aelwydydd y sir yn byw mewn rhyw fath o dlodi, mae cyfradd uchel o ordewdra ymhlith plant ac oedolion, ac mae ganddi un o'r cyfraddau hunanladdiad uchaf yng Nghymru. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, rhagwelir y bydd nifer yr achosion o glefyd sy'n gysylltiedig ag oedran, fel dementia, yn cynyddu'n sylweddol dros y 15 mlynedd nesaf a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, ystyrir bod y gostyngiadau a gofnodir mewn bod yn egnïol, treulio amser yn yr awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ynghyd â ffactorau eraill, yn cynyddu'r siawns o ddatblygu problemau iechyd meddwl a llesiant drwy bob cam o fywyd.


Ymhlith yr heriau amgylcheddol yn y sir mae nifer uchel o achosion o dipio anghyfreithlon, ansawdd dŵr isel oherwydd llygredd a cholli bioamrywiaeth, lle mae nifer o rywogaethau â blaenoriaeth a oedd yn doreithiog ar un adeg yn dirywio erbyn hyn. Ar ben hynny, mae dros 15,000 o eiddo yn Sir Gaerfyrddin mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd, boed yn llifogydd afonydd neu ddŵr wyneb, neu'n llifogydd arfordirol. Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r eiddo, seilwaith a'r gwasanaethau allweddol sydd mewn perygl o lifogydd, ac yn cael mwy o effeithiau ar fioamrywiaeth.

Mae gan ddatblygu cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar ymwreiddio dull SGG ac sy’n cael ei wneud mewn modd sy'n gyson â chyflawni amcanion llesiant lleol a chenedlaethol, y gallu i gyfrannu tuag at fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn modd cyfannol.



## Y Cyd-Destun Polisi

Yng Nghymru, mae'r cysyniad o weithredu dull SGG o ran cynllunio, dylunio a rheoli defnydd tir wedi'i hen sefydlu drwy'r system cynllunio gofodol. Cyflwynir cynlluniau a pholisïau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol sy'n gosod y fframwaith ar gyfer diogelu, gwella a chyflawni SGG isod.





# Adran B: Archwiliad a Manteision y Seilwaith Gwyrdd a Glas

# Rhwydwaith SGG Sir Gaerfyrddin

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r rhwydwaith SGG sy'n bresennol o fewn y Sir, ac yn crynhoi'r gwerthusiad manwl a geir yn yr Asesiad SGG (Adroddiad Technegol)

## Crynodeb o'r Rhwydwaith SGG Presennol

Mae gan Sir Gaerfyrddin rwydwaith SGG cryf sy'n cynnwys cymysgedd o nodweddion naturiol a lled-naturiol. Mae parciau gwledig fel Llyn Llech Owain, coetiroedd hynafol fel Coedwig Brechfa, a chwe Gwarchodfa Natur Leol, oll yn darparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr, cynefin ar gyfer bioamrywiaeth a chyfleoedd hamdden i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r sir yn elwa ar lawer o asedau seilwaith glas gan gynnwys ardaloedd arfordirol fel Parc Gwledig Pen-bre a Thraeth Cefn Sidan – sef y traeth cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr anrhydeddus y faner las. Mae hyn yn ychwanegol at Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, gan gynnwys Afon Teifi ac Afon Tywi sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau dyfrol a lled-ddyfrol, yn darparu adnoddau dŵr ar gyfer amaethyddiaeth ac yfed, ac yn cynnig llawer o weithgareddau hamdden.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i lleoli yng nghanol de-orllewin Cymru ac yn cynnwys arwynebedd o oddeutu 237,000 hectar. Fe'i nodweddir gan adnoddau tirwedd unigryw ac amrywiol ac ardaloedd o werth gweledol nodedig. Mae'n gartref i ystod o ardaloedd dynodedig sy'n adnabyddus yn genedlaethol, neu'n ffinio â'r ardaloedd hynny, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Safle Ramsar Cilfach Tywyn, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr.



Mae'n gartref hefyd i lawer o safleoedd hanesyddol a nodedig, gan gynnwys Castell Talacharn sy'n edrych i lawr dros Aber Afon Taf, a Chastell Carreg Cennen sydd ar ben clogwyn calchfaen, lle ceir golygfeydd panoramig o'r ardal o gefn gwlad o'i amgylch. Nodir bod rhai o goed hynod hynaf Prydain i'w cael yn y parcdir o amgylch Castell Dinefwr, lle tybir bod dros 300 o goed derw dros 400 mlwydd oed. Yn ogystal â hynny, mae'r sir wedi cael ei hen adnabod fel 'Gardd Cymru', gan mai yno y mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Er nad  safle hanesyddol yw'r Ardd yn yr ystyr traddodiadol, mae'n rhoi cipolwg rhyfeddol o hanes naturiol Cymru.






Heddiw, mae'r sir yn adnabyddus am ei diwydiant ffermio llaeth a magu defaid, ond roedd unwaith yn adnabyddus am ei pherllannoedd ffrwythau. Mae arferion ffermio traddodiadol, gan gynnwys systemau cynhyrchu helaeth a phori tir comin yn dal i fod yn gyffredin mewn llawer o ardaloedd. Mae sector amaethyddol Sir Gaerfyrddin yn chwarae rhan hanfodol yn yr economi leol, gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu at dreftadaeth amaethyddol gyfoethog y rhanbarth. Mae'r porfeydd glas, yn frith gan wartheg a defaid sy'n pori, a'r clytwaith o gaeau sy'n cael eu hamaethu, yn creu tirwedd wledig ddarluniadwy sy'n gynrychioliadol o Gymru.

## Diffinio Rhwydwaith SGG Strategol Sir Gâr

Fel y nodir yn Ystod o Raddfeydd, mae'r SGG lefel strategol yn darparu'r fframwaith a'r cyd-destun ehangach i gefnogi penderfyniadau ar lefel fwy lleol. Ystyrir mai'r mathau allweddol o asedau a ganlyn yw asgwrn cefn Rhwydwaith Strategol SGG Sir Gaerfyrddin:

### Coridorau SGG Strategol

Mae'r coridorau SGG strategol canlynol wedi'u seilio ar ein hafonydd, ein dyfrffyrdd a'n tirweddau afonol, ac yn cysylltu llawer o'n trefi, pentrefi a'n cymunedau â'i gilydd:

- Coridor Tywi
- Coridor Gwendraeth
- Coridor Llwchwr
- Coridor Llanelli
- Coridor Taf
- Coridor Teifi

### Safleoedd SGG Rhanbarthol

Mae'r ardaloedd gwarchodedig cenedlaethol a rhyngwladol canlynol oddi mewn i ffiniau Sir Gaerfyrddin:


- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Safle Morol Ewropeaidd Bae a Morydau Caerfyrddin

### Safleoedd SGG Strategol

Mae'r safleoedd canlynol yn cyflwyno'r prif fosaigau sy'n darparu ystod o gynefinoedd, nodweddion lled-naturiol, a defnyddiau tir ar raddfa tirwedd. Gweler Atodiad B am y safleoedd unigol.

- Safleoedd Cadwraeth Natur/Daearegol Dynodedig
- Parciau Gwledig (gan gynnwys Parciau Hamdden)
- Safleoedd Hanesyddol
- Cynefinoedd â Blaenoriaeth
- Coetiroedd

Cyflwynir map o'r Rhwydwaith SGG Strategol ar y dudalen nesaf. Sylwch nad yw'r holl asedau SGG wedi'u mapio ar y raddfa hon.



6
1
5
1
2
3
4
2

## Mapio Asedau SGG Ehangach

Mae'r Rhwydwaith SGG Strategol yn darparu'r fframwaith a'r cyd-destun ehangach i gefnogi SGG ar lefel cymdogaeth, stryd ac adeiladau unigol. Mae'r is-adran ganlynol yn amlinellu'r broses a ddilynwyd i fapio'n strategol yr holl SGG eraill sydd wedi'u lleoli yn ardal awdurdod cynllunio lleol Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceir y fethodoleg lawn yn yr Asesiad SGG, gan gynnwys ffynonellau data a'r sail resymegol dros ddefnyddio'r technegau mapio a ddewiswyd.

Mae'r ardaloedd hynny sydd o fewn terfynau aneddiadau a gynigiwyd i'w datblygu o dan Gynllun Datblygu Lleol 2018-2023 diwygiedig Sir Gaerfyrddin, wedi'u mapio'n fanylach. Mae hyn er mwyn helpu i nodi cyfleoedd gwella a allai fod yn ddefnyddiol wrth lunio datblygiadau yn y dyfodol a chynnal datblygiad cynaliadwy.



Mae mapio SGG ar bob graddfa ofodol yn hanfodol am sawl rheswm:

- **Cynllunio Defnydd Tir**: Drwy fapio SGG mewn ardaloedd adeiledig, gall cynllunwyr integreiddio asedau fel mannau gwyrdd, parciau a chyrff dŵr yn eu dyluniadau, gan wella ansawdd bywyd trigolion, ymwelwyr a chymunedau.
- **Cadwraeth a Bioamrywiaeth:** Mae mapio SGG yn helpu i nodi ecosystemau sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, gan alluogi ymdrechion gwell er budd cadwraeth.
- **Rheoli Adnoddau:** Mae mapio SGG yn helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel cadwraeth dŵr, diogelu pridd, ac atafaelu carbon.
- **Y Gallu i Wrthwynebu'r Newid Hinsawdd:** Mae mapio SGG yn ein helpu i ddeall sut y gall ardaloedd naturiol liniaru effeithiau'r newid hinsawdd, fel llifogydd ac erydiad.
- **Addysg ac Ymwybyddiaeth**: Mae mapio SGG yn codi ymwybyddiaeth ynghylch cadw ardaloedd naturiol a lled-naturiol, a manteision yr ardaloedd hynny i gymunedau, yr amgylchedd a'r economi leol.


## Teipoleg Asedau SGG

Fel y sefydlwyd yn Rhan A, mae asedau SGG yn amrywio rhwng parciau gwledig, llynnoedd a choetiroedd ac ymyriadau trefol unigol fel toeau gwyrdd a choed stryd. Er bod rhestr lawn o'r rhai a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin i'w chael yn Atodiad C, mae rhai asedau allweddol a'u harwynebedd bras wedi'u cynnwys isod:

## Ymarferoldeb SGG

Mae ymarferoldeb SGG yn seiliedig ar y nwyddau cyhoeddus a'r gwasanaethau ecosystem y gall rhai asedau eu darparu. Mae'n bosib y bydd ganddynt brif swyddogaethau amlwg ond, yn rhinwedd eu natur, mae llawer ohonynt yn amlswyddogaethol, sy'n golygu eu bod yn cyflawni ystod o swyddogaethau ar yr un pryd. Er enghraifft, mae coetir yn cyfrannu at liniaru newid hinsawdd drwy amsugno a storio carbon, yn ogystal â'i werth o ran harddwch, hamdden a chynefin.

Gall cysylltiadau rhwng gwahanol asedau SGG fod o gymorth i gynyddu eu hymarferoldeb a'r buddion canfyddedig. Mae SGG rhyng-gysylltiedig yn helpu i greu rhwydwaith sy'n ymaddasu i newidiadau amgylcheddol ac yn gallu gwrthsefyll y newidiadau hynny. Cysylltiadau ffisegol sy'n creu'r effaith fwyaf, sy'n aml yn creu 'cerrig camu' sy'n helpu i ffurfio coridorau bywyd gwyllt ac annog teithio llesol. Mae Atodiad C yn nodi rhai o'r swyddogaethau y gellir eu cyflawni yn erbyn y deipoleg SGG a grybwyllwyd uchod. Er mwyn helpu i ddisgrifio pwysigrwydd a gwerth SGG, dyrannwyd rhai o'r swyddogaethau SGG canlynol i'r asedau wedi'u mapio:



## Y Prif Ganfyddiadau o'r Archwiliad o'r SGG

- Gellir ystyried ##% o Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal oddi mewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn SGG. Mae Safleoedd Natur Dynodedig (##%), Tir Comin (##%), a Choetir (##%) yn rhan annatod o'r dirwedd.

- Nid yw SGG wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, ac mae rhai ardaloedd o SGG hygyrch, fel mannau gwyrdd, mannau chwarae neu fannau tyfu cymunedol heb eu cysylltu'n dda â'r mannau lle mae pobl yn byw, yn astudio neu'n gweithio (neu heb fod yn agos at y mannau hynny).

- Nid oes unrhyw SGG ar amryw o strydoedd â llawer o draffig o fewn ein Canol Trefi. I raddau helaeth, mae hyn yn deillio o’r modd y cafodd yr ardaloedd hyn eu datblygu yn y gorffennol.

- Mae diwydiannau trwm wedi gadael ardaloedd mawr sy'n addas i'w hadfywio. Gan hynny, gallai tir a ddatblygwyd o'r blaen gynnig cyfleoedd pellach am SGG o fewn ardaloedd allweddol.

- Mae gan lawer o drigolion fynediad at erddi preifat yn gysylltiedig â'u cartref sydd i gyfrif am oddeutu % o gyfanswm arwynebedd y tir. Fodd bynnag, mae gan drigolion o fewn ardaloedd trefol fel arfer lai o dir, os o gwbl.






# Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cyflawnwyd gwaith ymgynghori cychwynnol yn 2021 i nodi prif heriau a chyfleoedd Rhwydwaith y SGG yn Rhydaman, Caerfyrddin, Cwm Aman, Cydweli, Llanymddyfri, Llanelli, Castellnewydd Emlyn a Sanclêr. Roedd y rhai a gymerodd ran yn cynnwys Aelodau Etholedig ochr yn ochr ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Cynghorwyr Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol â ffocws SGG, a rhanddeiliaid â swyddogaeth statudol yn gysylltiedig â'r amgylchedd.



Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg ar-lein, map rhyngweithiol a rhith-weithdai, ac fe'i hadolygwyd yn gysylltiedig â phrif themâu'r SGG, sef Pobl, Lle a Natur, ynghyd â'r newid hinsawdd.







## Canfyddiadau'r Arolwg Ar-lein

Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion i gwestiynau am eu barn ynghylch Gweledigaeth ddrafft ar gyfer SGG; sut mae'r rhwydwaith SGG yn eu hardal yn perfformio yn erbyn pob thema allweddol ac unrhyw gyfleoedd am welliant. O ran y Weledigaeth ar gyfer SGG, tynnodd cyfranogwyr sylw at yr angen am ymagwedd o'r gwaelod i fyny, ochr yn ochr ag ymgysylltu cyhoeddus, ynghyd a phroblemau hygyrchedd oherwydd y defnydd o iaith gymhleth. Amlygwyd cydweithio a symleiddio'r iaith a ddefnyddir fel cyfleoedd i wella. Yn ogystal â hynny, roedd y cyfranogwyr hefyd am weld mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd a chreu lleoedd, seilwaith glas, a gwarchod bioamrywiaeth.

### Pobl

Amlygodd ymatebwyr yr arolwg bryderon dros eu cymunedau perthynol, fel diffyg mynediad at fannau gwyrdd a'r rhwydwaith teithio llesol, darpariaeth chwarae annigonol, a'r angen i hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli mannau agored presennol.

### Lle

Nododd amryw o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod hanes Sir Gaerfyrddin yn cael ei hyrwyddo'n dda. Fodd bynnag, amlygwyd problemau'n gysylltiedig â statws canol trefi wrth i siopau'r stryd fawr gau, lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gormodedd o seilwaith 'llwyd' caled. Cyfeiriwyd hefyd at rai cyfleoedd i wella, fel hyrwyddo ac integreiddio twristiaeth drwy SGG, cynyddu cyfleoedd yn yr awyr agored i'r eithaf drwy gynnal digwyddiadau, a chanolbwyntio ar greu naws am le. Nodwyd amryw o brosiectau parhaus sy'n canolbwyntio ar adfywio a gwella'r amgylchedd.

### Natur

Codwyd nifer o bryderon ynghylch natur, gan gynnwys prinder mannau gwyrdd a rhandiroedd mewn ardaloedd trefol, dibyniaeth ar arian grant, ac ofnau bod datblygiadau anghynaliadwy yn anghyson â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Roedd problemau hefyd yn gysylltiedig â pheryglon llifogydd a'r effeithiau ar gynefinoedd afonol. Nodwyd bod cyfleoedd i blannu blodau gwyllt.

## Map Rhyngweithiol

Darparwyd dolen i fap rhyngweithiol hefyd i'r un grŵp o ymgyngoreion gan ofyn iddynt nodi ardaloedd cryf, ardaloedd i'w gwella, ac ardaloedd lle ceir cyfleoedd. Gadawyd cyfanswm o 149 o sylwadau ar y map, â'r mwyafrif ohonynt yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman. Er y nodwyd bod gan bob ardal gryfderau amrywiol a'u bod yn wynebu gwahanol heriau, gwelwyd nifer o nodweddion cyffredin a amlygir isod.

### Pobl

Teimlai'r rhai a adawodd sylwadau fod cyfleoedd sylweddol i wella trefi er mwyn cefnogi pobl a SGG. Roeddent yn teimlo y gallai addysg ac ymgysylltu fod o gymorth i hyrwyddo SGG a helpu pobl i ddeall ei werth, a dulliau gwell o'i gynnal. Roedd llawer hefyd yn teimlo bod angen mwy o ffocws wrth geisio cynyddu twristiaeth a gwella mannau chwarae. Dywedodd rhai hefyd fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yr oedd angen mynd i'r afael â hi.

### Lle

Nododd y rhai a wnaeth sylwadau mai'r prif heriau sy'n atal mynediad at SGG yw'r diffyg gwaith cynnal a llwybrau teithio llesol, ynghyd â natur ddigyswllt mannau gwyrdd. Amlygwyd hefyd ei bod yn ymddangos fel pe bai natur a datblygiad yn gwrthdaro â'i gilydd - gwelai rhai fod mannau gwyrdd wedi cael eu clustnodi i'w datblygu, ac y byddai rhai mannau agored yn llai hygyrch yn sgil datblygu. Soniwyd am y cyfle i ddatblygu ac adfywio'r trefi mewn modd cynaliadwy. Nododd rhai hefyd fod heriau cynnal a chadw yn deillio o ddibyniaeth anghynaliadwy ar arian grant.

### Natur

Roedd cryn bryder am yr angen i wella a gwarchod natur a bioamrywiaeth o fewn y trefi, yn enwedig o fewn yr ardaloedd ac ynddynt afonydd sy'n dueddol o orlifo. Teimlai'r rhai a wnaeth sylwadau y gellid gwneud mwy i wella bioamrywiaeth, a dywedodd llawer fod cyfleoedd i blannu coed a blodau gwyllt. Nodwyd bod llygredd aer hefyd yn destun pryder.

## Gweithdai

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd tri gweithdy ar-lein ychwanegol, gyda 48 yn cymryd rhan, i drafod yr heriau a'r cyfleoedd cyffredinol yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith SGG. Er yr ailadroddwyd hyn yn ystod yr ymarferion eraill hefyd, cafwyd trafodaethau am yr heriau cyflawni canfyddedig wrth weithredu SGG. Teimlwyd bod cynnal a chadw a rheoli yn her sylfaenol i hirhoedledd SGG, gan amlygu’r angen am ddull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig. Ceir pryderon hefyd ynghylch y cyllid sy'n cyfrannu at greu a chynnal a chadw mannau o'r fath. Pwysleisiwyd bod angen sylweddol i addysgu a chydweithio â chymunedau a rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag adfywio canol trefi.



### Pobl

Teimlai'r cyfranogwyr fod cyfle pwysig i wella mannau agored ar draws y sir. Nodwyd hefyd bod angen cynyddu darpariaeth mannau tyfu cymunedol, a chanolbwyntio ar addysgu disgyblion ynghylch sut i dyfu bwyd. O ran mynediad, teimlai’r cyfranogwyr fod lle i wella er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael mynediad i’r mannau y ceir angen mawr amdanynt.

### Lle

Roedd yr heriau a godwyd yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a llygredd sŵn. Trafododd y cyfranogwyr yr angen am waith adfywio a arweinir gan SGG, gan gynnwys gwelliannau i asedau presennol a llwybrau teithio llesol newydd i sicrhau bod mannau yn hygyrch.

### Natur

Mae rhai o’r heriau a nodwyd sy’n berthnasol i natur yn cynnwys perygl llifogydd, dŵr gwastraff a llygredd amaethyddol, a chynnal a chadw coed. Tynnodd cyfranogwyr hefyd sylw at y cyfle i godi ymwybyddiaeth trigolion a'u haddysgu drwy sawl ffordd, gan gynnwys byrddau gwybodaeth.

## Crynodeb o'r Ymgynghoriad Blaenorol

I grynhoi, tynnodd y tri ymarfer ymgynghori sylw at nifer o heriau o ran SGG a chyfleoedd i'w gwella o fewn y sir er budd pobl, lleoedd a natur. Roedd nifer o themâu yn cael eu crybwyll droeon, a nodwyd agweddau cyffredin yn yr ymgynghoriad ymhlith yr heriau o flaen yr wyth ardal. Dyma rai o'r prif heriau a chyfleoedd:

### Pobl

**Ymgysylltu â'r Gymuned a Chydweithio:** Teimlwyd bod angen gwneud mwy i ymgysylltu a chydweithio â chymunedau, gan sicrhau y defnyddir iaith hawdd ei deall wrth wneud hynny. Nododd llawer y gallai grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid helpu i weithredu SGG yn well a chynyddu eu hirhoedledd o ymgysylltu â nhw.

**Addysg ac Ymwybyddiaeth:** Ceir cyfleoedd i wella gweithrediad SGG drwy godi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau lleol ac ymgysylltu ag ysgolion i addysgu ynghylch pwysigrwydd SGG. Nododd llawer y byddai'n fuddiol gosod arwyddion addysgiadol er mwyn helpu pobl i ddeall yr angen i werthfawrogi ac amddiffyn SGG, yn enwedig wrth egluro gwahanol ddulliau o reoli ardaloedd, fel peidio â thorri glaswellt yn ystod rhai misoedd.

### Lleoedd

**Yr angen am adfywio a arweinir gan SGG:** Teimlai'r cyfranogwyr fod cyfle i adfywio'r trefi drwy ddull SGG a fyddai o fudd i bobl a natur, y naill a'r llall, ac a fyddai hefyd yn cefnogi'r economi drwy gynyddu twristiaeth.

**Hygyrchedd:** Crybwyllwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â llwybrau teithio hygyrch a llesol yn aml drwy gydol yr ymgynghoriad, a gwelir hynny'n ffactor allweddol sy'n atal gweithredu SGG yn llwyddiannus. Ceir cyfle i wella llwybrau presennol at fannau, ac i sicrhau ystyriaeth o'r llwybrau hynny wrth ddylunio SGG newydd.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**: Nododd rhai cyfranogwyr fod yna gyfraddau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn trefi a bod angen mynd i'r afael â hyn. Mae hon yn her allweddol gan fod angen i bobl deimlo'n ddiogel mewn mannau, heb ddioddef effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a all hefyd amharu ar natur.

## Natur

**Cynnal a Chadw:** Er bod cyfranogwyr wedi nodi bod angen cynyddu nifer y mannau gwyrdd o fewn ardaloedd trefol, tynnodd llawer sylw hefyd at broblemau cynnal a chadw mannau presennol, ac at y ffaith bod cyfyngiadau ariannu yn effeithio ar hynny. Dyma agwedd y mae angen mynd i'r afael â hi, gan ei bod hi'n hanfodol cynnal a chadw mannau gwyrdd er mwyn cael y budd mwyaf ohonynt.

**Llygredd Amgylcheddol:** Nodir llygredd fel problem allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac ar bobl. Mae hyn yn cynnwys yr argyfwng ffosffad presennol a phroblemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd dŵr sy'n effeithio ar afonydd, fel gollyngiadau dŵr gwastraff a llygredd amaethyddol gwasgaredig. Gall y naill a'r llall niweidio iechyd dynol.

**Llifogydd:** Amlygwyd bod peryglon sylweddol yn gysylltiedig â llifogydd y mae angen eu rheoli'n effeithiol. Gall defnyddio Atebion ar Sail Natur, lle bynnag y bo modd, fod o fudd i fioamrywiaeth, yn ychwanegol at gartrefi a seilwaith cymunedol.



# Buddion a Ddarperir gan SGG





# Rhan C: Y Weledigaeth a'r Amcanion

## Y Weledigaeth ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas yn Sir Gâr

*Yn Sir Gâr, mae rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas sydd â chysylltiadau da ac sy'n cael ei werthfawrogi yn diogelu gwasanaethau ecosystemau ac yn darparu nwyddau cyhoeddus hanfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

*Mewn cydweithrediad â chymunedau lleol, rhanddeiliaid a llunwyr polisi, mae Sir Gâr yn meithrin diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ac yn ffynnu fel model ar gyfer datblygu cynaliadwy, llesiant a gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.*

*Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion lleol a byd-eang (megis perygl llifogydd, ansawdd dŵr, a llygredd aer), ac maent hefyd yn darparu cynefin ar gyfer bioamrywiaeth a chyfleoedd hamdden hygyrch.*

*Mae'r gwaith arfaethedig o integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Glas amlswyddogaethol yn ein hamgylchedd adeiledig, ochr yn ochr â rheoli'n gynaliadwy y rhai sydd yn y dirwedd ehangach, yn meithrin perthynas gytûn rhwng pobl, lle a natur."*

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei chefnogi gan gyfres o amcanion strategol sydd wedi'u llywio gan y materion allweddol a nodir o dan bob un o'r themâu - *pobl, lle, a natur*.

Yn bwysig, ni ellir cyflawni'r amcanion trwy bolisi cynllunio neu un o adrannau'r Cyngor yn unig. Bydd cydweithio ar draws ystod eang o adrannau, cymunedau a phartneriaid allanol drwy ddull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas yn hanfodol i gyflawni'r amcanion (ac felly gyflawni'r weledigaeth). Bydd hyn yn cynnwys adfywio, trafnidiaeth, cynllunio, a rheoli parciau a hamdden awyr agored, i enwi ond ychydig.

Er bod yr amcanion dilynol yn sail ar gyfer gweithredu a monitro, mae'n bwysig nodi y bydd angen i'r Strategaeth fod yn hyblyg yn sgil agenda polisi sy'n newid yn gyflym, a chanfod anghenion a chyfleoedd newidiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys deddfwriaeth sy'n datblygu ynghylch cynllunio, sero net ac adfer natur.

Pobl - Amcan Un

## Diogelu Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gâr ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol

Pam? Mae diogelu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant cymunedau, yn ogystal â'n hamgylchedd a'n heconomi leol. Mae blaenoriaethu hyn nid yn unig yn gwella bywydau pobl heddiw, ond mae hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer amgylchedd cynaliadwy a ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er bod angen cynllunio strategol i ddiogelu, i integreiddio ac i wella Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn modd cyfannol sy'n manteisio i'r eithaf ar yr ystod o fuddion a ddarperir, gall mentrau eraill, gan gynnwys hyrwyddo gwneud penderfyniadau lleol, egwyddorion o ran datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd, ynghyd â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, helpu i sicrhau bywiogrwydd Seilwaith Gwyrdd a Glas yn Sir Gâr.



Pobl - Amcan Dau

## Blaenoriaethu mynediad i Fannau Agored Cyhoeddus ac annog Teithio Llesol

Pam? Mae hamdden ac ymarfer corff yn hanfodol ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol. Fel elfennau allweddol wedi'u plethu yn yr amgylchedd adeiledig, mae'r asedau hyn hefyd yn cynnig ystod wahanol o swyddogaethau, gan gynnwys cefnogi bioamrywiaeth, gwella ansawdd aer, a mynediad at natur. Dylai ymyriadau pellach fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ymateb i'r cymunedau hynny nad oes ganddynt ddarpariaethau digonol.





Pobl - Amcan Tri

## Hyrwyddo Cyfleoedd ar gyfer Tyfu Bwyd yn y Gymuned

Pam? Ers amser maith, mae Sir Gâr wedi cael ei galw'n 'Gardd Cymru'. Bydd archwilio ymyriadau sy'n cynyddu Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o ran yr ardal ac ansawdd yr asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas fel rhandiroedd, mannau tyfu cymunedol, a pherllannau, yn helpu i barhau â'r traddodiad hwn. Yn ogystal, gall tyfu eich cynnyrch eich hun fod o fudd i bobl a'r blaned, a hynny drwy wella llesiant corfforol a meddyliol, darparu gofod i gymunedau ddod at ei gilydd, neu drwy gyfyngu ar nifer y milltiroedd bwyd ar ein platiau.

Lle - Amcan Un

## Ymgorffori dull Seilwaith Gwyrdd a Glas i helpu i greu amgylcheddau deniadol gydag ymdeimlad o le neilltuol



Pam? Fel elfen ganolog o greu lleoedd iach, mae diogelu'r Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol neu ddatblygu ac integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn astudio. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas, sy'n aml yn cael ei ystyried yn nodwedd ddiffiniol o le, yn helpu i feithrin mwy o ymdeimlad o berthyn ymhlith preswylwyr ac yn cyfrannu at hunaniaeth a chymeriad lleol. Mae creu trefluniau bywiog hefyd yn hyrwyddo bywiogrwydd economaidd, cydlyniant cymunedol, a llesiant. Bydd cynnal y pum Ffordd o Weithio a chynnwys cymunedau a phartneriaid yn hanfodol wrth weithredu'r amcan hwn.

Lle - Amcan Dau

## Sicrhau bod Seilwaith Gwyrdd a Glas o ansawdd yn cael ei ddarparu o fewn datblygiadau newydd a'i fod yn ategu rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ehangach

Pam? Mae darparu Seilwaith Gwyrdd a Glas o ansawdd mewn datblygiadau newydd yn elfen hanfodol o ran sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn helpu i gryfhau ymdeimlad o le lleol, hyrwyddo ffyrdd egnïol o fyw, a gwella llesiant – a chanlyniad hynny yw adeiladwaith adeiladau mwy deniadol a chymunedau mwy bywiog. Dylai cyflwyno Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd (neu welliannau i nodweddion presennol) roi blaenoriaeth i integreiddio â'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amlswyddogaetholdeb.






Lle - Amcan Tri

## Sicrhau bod gwelliannau i ganol trefi yn canolbwyntio ar ailgysylltu â'u hamgylchedd naturiol a hanesyddol

Pam? Bydd ailsefydlu'r cysylltiad rhwng canolfannau poblogaeth a'r amgylchedd naturiol yn helpu i hybu iechyd a llesiant, yn cefnogi twristiaeth a thwf economaidd, ac yn annog ymdeimlad dyfnach o berthyn rhwng cymunedau a'u hamgylchedd. Bydd mentrau adfywio sy'n canolbwyntio ar gynyddu a gwella mannau gwyrdd yn ein trefi yn helpu i annog pobl i fyw, i weithio ac i fuddsoddi yn yr ardal. Byddant hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant, yn darparu cyfleoedd hamdden, ac yn creu coridorau bywyd gwyllt.

Natur - Amcan Un

## Hyrwyddo'r defnydd o Atebion Seiliedig ar Natur i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chynyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd

Pam? Mae Atebion Seiliedig ar Natur yn defnyddio dull cyfannol i i'r afael â nifer o heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd. Gall gweithredu Atebion Seiliedig ar Natur fod yn fwy cost-effeithiol na dulliau llwyd traddodiadol, gan hyrwyddo cadwraeth ecosystemau sy'n hanfodol ar gyfer cynnal ac adfer bioamrywiaeth. Mae llawer o'r rhain, fel adfer gwlyptiroedd a choedwigo, yn helpu i ddal a storio carbon deuocsid, gan gyfrannu at ymdrechion lliniaru o ran newid yn yr hinsawdd gan ddarparu manteision ychwanegol megis adfer cynefinoedd a lliniaru llifogydd.



Natur - Amcan Dau

## Gwneud y mwyaf o amlswyddogaetholdeb trwy hyrwyddo arferion rheoli cynaliadwy

Pam? Bydd gwneud y mwyaf o swyddogaethau bioamrywiaeth yn arwain at fanteision di-rif, er enghraifft addasu cynlluniau cynnal a chadw presennol neu flaenoriaethu amlswyddogaetholdeb o ran cyflwyno asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd a gynlluniwyd. Mae manteision o'r fath yn cynnwys helpu i wella rhwydweithiau ecolegol a dargludedd, cefnogi rhywogaethau â blaenoriaeth, a chreu amgylchedd mwy cynaliadwy sy'n cefnogi natur ac anghenion cymunedau. Mae angen ailfeddwl arferion traddodiadol a chefnogaeth o ran symud ymlaen i fabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy ac ystyriol o natur o ran rheoli tir yn effeithiol.



Natur - Amcan Tri

## Archwilio gwelliannau i'r Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n gwella rhwydweithiau ecolegol

Pam? Gall gwelliannau i rwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas hwyluso cysylltedd rhwng cynefinoedd darniog, gan ganiatáu i fywyd gwyllt symud yn hwylus. Mae'r cysylltedd hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau o ran mudo, atgenhedlu, ac amrywiaeth genetig, yn enwedig yn wyneb newidiadau amgylcheddol. Dylai mentrau datblygu ac adfywio yn y dyfodol ystyried hyn wrth geisio sicrhau buddion net i fioamrywiaeth. Yn ogystal, mae defnyddio mannau nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n iawn ar gyfer cadwraeth natur (megis ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd amwynder nad ydynt yn cael eu defnyddio) yn un dull a all gynyddu ansawdd cyffredinol rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas yn Sir Gâr.



# Rhan D: Camau a Gweithredu


## Cefnogi Polisi Lleol

Mae'r Strategaeth yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, a Chynllun Datblygu Lleol 2018-2032, yn ogystal ag uchelgeisiau, cynlluniau a rhaglenni lleol eraill. I gydnabod y buddion niferus y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas ac Atebion Seiliedig ar Natur eu cynnig, mae'r gydberthynas hon ar draws meysydd polisi yn hanfodol o ystyried yr angen am effeithlonrwydd adnoddau, darparu gwerth am arian, a hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar atal. Cydnabyddir y bydd gweithredu dull Seilwaith Gwyrdd a Glas yn Sir Gâr yn gofyn am gydweithio amlddisgyblaethol, hyd yn oed o fewn yr awdurdod lleol ei hun.



## Partneriaid Allweddol

Yn unol â'r pum ffordd o weithio, cydnabyddir bod angen dull cyfannol a chydweithredol er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth. Rhoddir rhestr ddangosol o randdeiliaid allweddol a phartneriaid strategol isod:



## Darparu Gwell Seilwaith Gwyrdd a Glas Gwell yn Sir Gâr a Mwy Ohono

Mae'r adran hon yn archwilio nodweddion Seilwaith Gwyrdd a Glas o ansawdd, cyfleoedd posibl ar gyfer sicrhau rhagor o asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn lleol, a rhai o'r ffyrdd y gellir cyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas, a hynny o safbwynt mentrau ar lawr gwlad a'r hyn y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio'i wneud i gyflawni gweledigaeth ac amcanion Seilwaith Gwyrdd a Glas.



### Egwyddorion Seilwaith Gwyrdd a Glas o Ansawdd

Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol yn arddangos sawl nodwedd allweddol sy'n gwella'i ymarferoldeb, ei gynaliadwyedd a'i fuddion i gymunedau ac i'r amgylchedd. Fel yr archwiliwyd ar y tudalennau canlynol, mae'r egwyddorion allweddol o ran cyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas o ansawdd y dylai prosiectau yn Sir Gâr eu hyrwyddo yn y dyfodol yn cynnwys:



## Amlswyddogaetholdeb

Er y gall rhai asedau gael eu cynllunio'n benodol ar gyfer rhai swyddogaethau (fel Atebion Seiliedig ar Natur ar gyfer lliniaru llifogydd, er enghraifft), dylai pob Seilwaith Gwyrdd a Glas gyflawni cyfres o swyddogaethau a buddion i bobl, i leoedd ac i fyd natur. Mae amlswyddogaetholdeb (Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n gwasanaethu amrywiaeth o ddefnyddwyr gan ddarparu amrywiaeth o fuddion gwahanol) yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth ar hyn o bryd neu os yw'r ddarpariaeth o ansawdd isel. Rhowch ystyriaeth i atebion dylunio dynol-ganolog (sy'n gysylltiedig â datblygu seilwaith adeiledig newydd) ac ymyriadau (prosiectau ôl-osod) sy'n ategu'r ymdeimlad o le gan ddarparu cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth.



## Cynaliadwyedd ar Waith

Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas sydd wedi'i ddylunio'n gydwybodol a'i integreiddio'n briodol ddarparu ystod o fuddion sy'n berthnasol o ran sicrhau cynaliadwyedd cyfannol. Yn economaidd, gall arwain at arbedion ariannol, megis llai o gostau ynni yn sgil toeau gwyrdd a llai o gostau rheoli dŵr storm. Yn gymdeithasol, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i atal anhwylderau iechyd a llesiant a'u costau cysylltiedig trwy ddarparu cyfleoedd hamdden, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned, a gwella ansawdd bywyd. Mae llawer o asedau hefyd yn cryfhau'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan ganiatáu i gymunedau addasu'n well i heriau fel llifogydd a thywydd poeth. Yn ogystal, gall ymgorffori arferion cynaliadwy fel defnyddio planhigion hawdd eu tyfu, technegau rheoli sy'n gydnaws â'r amgylchedd, a strategaethau datblygu isel eu heffaith, o fewn y gwaith dylunio a chynnal a chadw Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i sicrhau llwyddiant yn y tymor hir. Mae cynnal cynaliadwyedd wrth ddylunio a rheoli Seilwaith Gwyrdd a Glas yn meithrin amgylchedd adeiledig iachach a mwy bywiog wrth fynd i'r afael â phryderon ecolegol ac anghenion economaidd cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol.

## Cymunedau

Dylai Seilwaith Gwyrdd a Glas gael ei lywio gan anghenion lleol i hwyluso'r gwaith o greu lleoedd iach, y gellir byw ynddynt, sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu a chysylltu â'i gilydd ochr yn ochr â byd natur. Ni waeth ble mae pobl yn byw, yn gweithio neu'n astudio, dylai'r lleoedd hyn roi cyfleoedd digonol i bawb o ran hamdden, ymarfer corff a dysgu sy'n gynhwysol, yn ddiogel, wedi'u rheoli'n dda ac yn hygyrch i bawb. Yn ogystal, yn aml mae'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yn cynnwys mewnbwn a chyfranogiad cymunedol o ran eu dyluniad a'u gwaith cynnal a chadw. Mae'r ymgysylltu hwn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a stiwardiaeth ymhlith y trigolion cyfagos. Dylai cymunedau fod wrth wraidd Seilwaith Gwyrdd a Glas.

## Amrywiaeth

Dylai Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn cymuned leol gynrychioli cynnig amrywiol. Dylai prosiectau newydd, sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau a meintiau o asedau, geisio ategu'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol i ddarparu, yn y modd gorau, ystod o wahanol swyddogaethau, buddion ac Atebion Seiliedig ar Natur i fynd i'r afael ag anghenion penodol.

## Canolbwyntio ar Sir Gâr


Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn ffordd o ddathlu cymeriad unigryw Sir Gâr. Dylai gyfrannu at amddiffyn, gwella a/neu adfer tirweddau (gan gynnwys y rhai adeiledig) y mae pobl yn teimlo eu bod yn gysylltiedig â nhw.



## Gosod y Raddfa

Yn ôl pob tebyg, gan y bydd disgwyl i dwf yn y dyfodol ddarparu asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd gan gynnwys Atebion Seiliedig ar Natur ar draws y Sir, mae angen i gymunedau priodol wneud penderfyniadau lleol a gweithredu ar lawr gwlad i helpu i lunio hyn, ochr yn ochr â diogelu Seilwaith Gwyrdd a Glas y tu hwnt i lefel y Rhwydwaith Strategol. Gall creu cynlluniau ar gyfer lleoedd dan arweiniad y gymuned a/neu fathau eraill o gynlluniau rheoli tir neu amgylcheddol hyperleol, (megis Cynllun Gweithredu ynghylch Datblygu Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Cyngor Tref Llanelli) fod yn gyfle allweddol ar gyfer gweithredu dull Seilwaith Gwyrdd a Glas.

O fewn Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033, lluniwyd fframwaith aneddiadau i helpu i ddosbarthu'r ddarpariaeth o dwf yn y dyfodol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar Brif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth, Pentrefi Cynaliadwy, Pentrefi Gwledig a sicrhau bod terfynau datblygu wedi cael eu diffinio i helpu i hyrwyddo defnydd effeithiol a phriodol o dir a chyfeirio datblygiad at ardaloedd a fyddai'n gynaliadwy. Dangosir ar y map canlynol y gall ardaloedd gofodol fel y rhain fod yn ddefnyddiol wrth gryfhau'r ymdrechion i warchod, i gyflwyno ac i integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol.



## Ymyriadau Seilwaith Gwyrdd a Glas Posibl / Cyfleoedd Blaenoriaeth

Mae'r adran hon, sydd wedi'i llywio gan yr heriau a brofir yn Sir Gaerfyrddin a'u llunio drwy ymgynghori â'r cyhoedd a'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid uchod, yn archwilio rhai o'r cyfleoedd i wella Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin. Er bod llawer o bosibiliadau eraill ar gael, mae'r ymyriadau hynny a drafodir yn y Blwch Pecyn Cymorth Cyfleoedd (Atodiad E) yn canolbwyntio ar:

- Creu Mannau Chwarae
- Gwella Gorchudd Coed
- Sefydlu Mannau Gwyrdd ar gyfer Safleoedd Hanesyddol
- Archwilio Adrodd Straeon Amgylcheddol
- Dod o hyd i Fannau ar gyfer Tyfu Cymunedol
- Gwyrddu'r Mannau lle mae Pobl yn Byw, yn Gweithio ac yn Ymweld â Nhw
- Hyrwyddo Draenio Cynaliadwy (SDCau)
- Diogelu a Chysylltu Mannau Arfordirol
- Darparu Llwybrau Gwyrdd ar gyfer Teithio Llesol
- Adfer Coridorau Glas
- Ailystyried Swyddogaethau Parciau a Llecynnau Glas



Nid yw'r Strategaeth hon yn amlinellu'n benodol y sefyllfa a maint y gwelliannau posibl o ran Seilwaith Gwyrdd a Glas. Mae hyn wedi'i neilltuo'n fwriadol ar gyfer cynlluniau ar gyfer lleoedd mwy lleol, cymunedol a mentrau creu lleoedd lleol eraill, a all yn aml fod yn fwy ymatebol a rhagweithiol o ran unrhyw gyfleoedd a/neu bwysau lleol a allai godi.

## Perthynas Ymyrraeth ag Amcanion

Mae'r tabl isod yn edrych ar sut y bydd yr ymyriadau posibl yn cyfrannu at yr amcanion. Noder, er y bydd ymyriadau ffisegol yn allweddol o ran helpu i gyflawni'r amcanion, bydd llawer o ddulliau'n cael eu datblygu i ganfod y weledigaeth mewn modd cyfannol.

| Ymyrraeth | Gweledigaeth y Seilwaith | Amcan | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pobl | | | Lle | | | Natur | | |
| | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Creu Mannau Chwarae | 🟢 | | 🟢 | 🟡 | | 🟡 | | | 🟡 | 🟡 |
| Gwella Gorchudd Coed | 🟢 | | | | | 🟡 | 🟡 | 🟢 | 🟡 | 🟡 |
| Sefydlu Mannau Gwyrdd ar gyfer Safleoedd Hanesyddol | 🟢 | | 🟡 | | 🟢 | 🟡 | 🟢 | | 🟡 | 🟡 |
| Archwilio Adrodd Straeon Amgylcheddol | 🟢 | 🟢 | | | | 🟡 | 🟡 | | 🟡 | 🟡 |
| Dod o hyd i Fannau ar gyfer Tyfu Cymunedol | 🟢 | | 🟢 | 🟢 | | 🟡 | | | 🟡 | 🟡 |
| Gwyrddu'r Mannau lle mae Pobl yn Byw, yn Gweithio ac yn Ymweld â Nhw | 🟢 | | 🟡 | 🟡 | 🟢 | 🟡 | 🟢 | | 🟡 | 🟡 |
| Hyrwyddo Draenio Cynaliadwy (SDCau) | 🟢 | | 🟡 | | | 🟡 | | 🟢 | 🟡 | 🟡 |
| Diogelu a Chysylltu Mannau Arfordirol | 🟢 | 🟢 | | | 🟢 | 🟡 | | 🟢 | 🟡 | 🟡 |
| Darparu Llwybrau Gwyrdd ar gyfer Teithio Llesol | 🟢 | | 🟢 | | | 🟡 | 🟡 | | 🟡 | 🟡 |
| Adfer Coridorau Glas | 🟢 | 🟢 | | | | 🟡 | | 🟢 | 🟡 | 🟢 |
| Ailystyried Swyddogaethau Parciau a Llecynnau Glas | 🟢 | 🟡 | | 🟡 | | 🟡 | | | 🟢 | 🟢 |

🟢 = Cyswllt uniongyrchol 🟡 = Yn dibynnu ar weithredu'r gwaith

## Cyfleoedd Cyflawni Allweddol

Bydd ymgorffori ymyriadau Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn cynlluniau, cynigion a phrosesau o ran gwneud penderfyniadau eraill (yn unol ag egwyddorion Seilwaith Gwyrdd a Glas o Ansawdd) yn rhoi'r cyfle gorau i Sir Gâr gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth. Mae'r cyfleoedd a'r gweithgareddau allweddol i weithredu dull Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

### Cynigion ar gyfer Datblygiadau Newydd

Yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd cyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn cynlluniau datblygu ar gyfer tai a chyflogaeth yn hanfodol ar gyfer lliniaru effeithiau a sicrhau buddion i'r gymuned, yr amgylchedd a'r economi o'i hamgylch.

### Adfywio a Gwelliannau i Ganol Trefi

Bydd mabwysiadu dull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn mentrau adfywio yn helpu i wyrddu ac adfywio ein hardaloedd trefol, i gynyddu mynediad at natur a mannau agored cyhoeddus, ochr yn ochr â hyrwyddo'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

### Ôl-osod Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn Datblygiadau Presennol

Sbardun mawr ar gyfer 'disodli'r llwyd â gwyrdd' yw pan fydd angen ymyrraeth i ddatrys materion penodol fel lliniaru perygl llifogydd, mynd i'r afael â llygryddion amgylcheddol (fel dŵr neu aer) neu ddiffyg mewn mannau agored cyhoeddus, yn ogystal â gwella mynediad at deithio llesol neu hawliau tramwy cyhoeddus.

### Mentrau Rheoli Tir

Mae ailystyried arferion presennol o ran defnyddio a rheoli'r safleoedd presennol yn darparu cyfleoedd i gyflawni bioamrywiaeth gan fireinio effeithlonrwydd. Yn ogystal, bydd rhaglenni diogelu fel Prosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn fecanwaith allweddol ar gyfer hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy.

### Prosiectau Seilwaith

Gellir naill ai darparu Seilwaith Gwyrdd a Glas ochr yn ochr â chynigion ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr fel trafnidiaeth, gwastraff, ynni, mwynau a dŵr, neu gellir ystyried Seilwaith Gwyrdd a Glas fel dewis arall yn lle atebion dylunio traddodiadol. Yn ogystal, mae adfer safleoedd adfeiledig neu segur hefyd yn cynnig cyfle.

## Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas dan Arweiniad y Gymuned

Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas dan Arweiniad y Gymuned yn cynrychioli cyfle allweddol arall i gyflawni. Ochr yn ochr â'r Strategaeth hon y mae pecyn cymorth sy'n ceisio cefnogi mentrau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lawr gwlad. Gellir gweld y ddogfen hon yma.

Pwrpas y pecyn cymorth yw rhoi trosolwg o'r ystyriaethau allweddol sydd eu hangen ar gyfer grwpiau cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector a Chynghorau Tref a Chymuned fel ei gilydd i gymryd rhan yn y broses o ddiogelu, rheoli a chreu Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol. Ymdrinnir â'r pynciau canlynol:

- Camau i Sefydlu Gofod Cymunedol
- Manylion am Lywodraethu a Chyllido
- Canllaw Dylunio
- Angen Caniatâd Cynllunio
- Llwybrau ar gyfer Cael Lle

Gall sicrhau safle addas ar gyfer datblygu prosiectau Seilwaith Gwyrdd a Glas dan arweiniad y gymuned fod yn heriol. Gellir gweld manylion am Drosglwyddo Asedau Cymunedol (trosglwyddo tir neu adeiladau o feddiant y Cyngor fel eu bod yn cael eu stiwardio gan sefydliad lleol) yma.



## Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas

Gan sicrhau llesiant cenedlaethau heddiw a'r dyfodol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i adfer natur, i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac i greu lleoedd, ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Fel rhan o ddull amlochrog, mae'n cydnabod y bydd gan Seilwaith Gwyrdd a Glas rôl allweddol o ran helpu i ddatrys yr heriau hyn.

Mae Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn manylu ar y camau a gymerir i ganfod y rhain mewn perthynas â Seilwaith Gwyrdd a Glas, yn unol ag amcanion y Strategaeth hon.

Darperir fel dogfen ar wahân, ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

**Sylwer, cynigir y bydd drafft Cynllun Gweithredu SGG yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd gweledigaeth ac amcanion y strategaeth ddrafft wedi cael eu llywio drwy ymgynghoriad cyhoeddus.**


## Darparu Adnoddau

Fel y manylir yn y Cynllun Gweithredu, mae llawer o'r gweithgareddau a gynigir ar gyfer cyflawni'r amcanion yn canolbwyntio ar ymgorfforí dull Seilwaith Gwyrdd a Glas a dealltwriaeth o greu lleoedd a chynaliadwyedd cyfannol o fewn ffyrdd cyfredol o weithio, ochr yn ochr â gwella effeithlonrwydd gwasanaethau y mae'r Cyngor eisoes yn eu darparu. Bydd goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau'r Cyngor yn cael eu lliniaru ymhellach drwy hyrwyddo dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol, gan rannu arbenigedd ac adnoddau sydd fwyaf perthnasol. Mae camau gweithredu eraill yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol presennol a roddir ar yr awdurdod lleol o dan ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol.

Gellir diwallu ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n creu asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a'u gwaith cynnal a chadw hirdymor trwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd y llywodraeth, grantiau'r trydydd sector a'r sector preifat, a chynlluniau stiwardiaeth amgylcheddol. Gellid bodloni'r rhai sy'n gysylltiedig yn gynhenid â chyflawni datblygiadau newydd drwy Amodau Cynllunio neu Rwymedigaethau Cynllunio megis Cytundebau Adran 106 neu Ardollau Seilwaith Cymunedol.

## Monitro

Gall sefydlu metrigau clir ar gyfer llwyddiant a fframwaith ar gyfer gwerthuso parhaus helpu i nodi meysydd i'w gwella, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, a bod digon o gynnydd yn cael ei wneud dros amser. Er y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn ôl yr angen i roi sylw i amgylchiadau sy'n newid, mae monitro mewn perthynas â phob un o'r amcanion wedi'i integreiddio o fewn Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas.




# Atodiadau



# Atodiad A: Amlinellu'r Angen am Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r adran yn disgrifio rhai o'r prif ysgogwyr amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar angen Sir Gaerfyrddin am Seilwaith Gwyrdd a Glas. Caiff y rhain eu hadolygu yn unol ag amcanion llesiant lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol (2022–27) yn ogystal â Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (2023–28).

Mae llawer o'r data isod wedi'i grynhoi o asesiad llesiant lleol Sir Gaerfyrddin.



## Gwneud ein Cymunedau a’n Hamgylchedd yn Iach, yn Ddiogel ac yn Ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)

Mae'r amcan llesiant hwn yn uniongyrchol berthnasol i "Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd" a gynhwysir yng Nghynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymroddedig i ddeall anghenion lleol a mynd i'r afael â'r materion sy'n berthnasol i sefydlu cymunedau sy'n iach, yn ddiogel ac yn llewyrchus. Mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i gryfhau'r economi leol, cynyddu ffyniant, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith a'r amgylchedd. Wrth gymryd y camau angenrheidiol i gynnal yr ymrwymiadau hyn a rhoi cyfle i ymgorffori dull Seilwaith Gwyrdd a Glas, mewn rhai achosion, mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnig ateb parhaol i fynd i'r afael â gwraidd y problemau hyn, nid datrysiad tymor byr yn unig.

Trafodir agweddau penodol ar gynnal yr amcan llesiant hwn mewn perthynas â Seilwaith Gwyrdd a Glas yn fanylach isod. Mae llawer o'r rhain hefyd yn gysylltiedig â hyrwyddo Amcanion Llesiant eraill, gan gynnwys y rhai lleol megis "Dechrau Da" a "Byw a Heneiddio'n Dda", ond hefyd y rhai cenedlaethol megis "Cymru iachach" a "Cymru o gymunedau cydlynus”.



## Mynd i'r afael ag Amddifadedd

Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae dros draean (35.6%) o'n haelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fyw mewn tlodi, sef lefel sydd wedi cynyddu 0.9% dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i tua 29,500 o aelwydydd, sy'n awgrymu bod bron i 600 o aelwydydd ychwanegol wedi llithro o dan y trothwy incwm dros y deng mlynedd diwethaf. Mae amddifadedd yn dod ar sawl ffurf ac, er bod tlodi yn aml yn canolbwyntio ar amddifadedd materol, mae rhwystrau o ran cael mynediad i amgylchedd o ansawdd sy'n ffafriol i fywyd iach yn uniongyrchol berthnasol i Seilwaith Gwyrdd a Glas. Yn nodweddiadol, mae'r gwahanol fathau o amddifadedd yn gydberthynol iawn, sy'n golygu bod angen dull cyfannol i fynd i'r afael â nhw.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bychain. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o wyth maes gwahanol o amddifadedd, sy'n cynnwys yr Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Cymunedol. Mae'r mynegai yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru mewn safleoedd rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae gan yr ardaloedd hyn gyfartaledd poblogaeth o 1,600 o bobl er mwyn gwneud cymariaethau tecach rhwng ardaloedd sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae gan Sir Gaerfyrddin 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 4% o'r ardaloedd daearyddol hyn ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn ogystal, mae 25 o'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn rhanbarth Llanelli (15) gydag 20% yn ardal Aman (5), 12% yn ardal Gwendraeth (3) ac 8% wedi'u lleoli yn ardal Caerfyrddin (2). Yr ardal sy'n cael ei rhestru fel yr ardal fwyaf difreintiedig yn y Sir yw Tyisha 2. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir i asesu amddifadedd sy'n uniongyrchol berthnasol i Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnwys Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch; Sgôr ar gyfer Mannau Gwyrdd Amgylchol; ac amseroedd teithio i Gyfleusterau Chwaraeon.

## Hyrwyddo Iechyd a Llesiant

Yn Sir Gaerfyrddin, roedd gan 30.4% o aelwydydd un person ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor, un pwynt canran yn uwch

na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ogystal, y Sir yw'r 5ed gwaethaf yng Nghymru o ran lefelau gordewdra yn ystod plentyndod, y 7fed uchaf o ran nifer yr oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew, 3ydd o ran oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau, a'r 5ed o ran y gyfran isaf o oedolion hŷn yn dweud eu bod mewn iechyd da ac yn cael dau ymddygiad ffordd o fyw iach. Serch hynny, mae disgwyliad oes yn Sir Gaerfyrddin yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, mae'r blwch anghydraddoldeb rhwng dynion/menywod o ran disgwyliad oes iach ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac mae lefelau ymarfer corff a gweithgarwch corfforol a gofnodir yn gymharol uchel.

Mae salwch meddwl yn rhywbeth y bydd un o bob pedwar oedolyn yn ei brofi yn ystod eu hoes. Mae gofalu am iechyd meddwl cyn bwysiced ag iechyd corfforol, mae pobl yn dod i ddeall mwyfwy drwy'r amser am y cysylltiad rhwng y ddau ffactor. I rai, gall llesiant seicolegol ac emosiynol gwael fod yn rhwystr i weithgareddau bob dydd. Mae llesiant meddyliol yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella yn unol â gweddill y wlad. Er gwaethaf hyn, cynyddodd cyfran yr oedolion sy'n poeni am eu llesiant meddyliol o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, yn ogystal â menywod a phobl iau, yn dangos lefelau uwch o bryder. Yn ogystal â hynny, yn Sir Gaerfyrddin mae un o'r cyfraddau hunanladdiad uchaf yng Nghymru - y 4ydd nifer uchaf o hunanladdiadau fesul sir gyda 22 o farwolaethau yn 2019 yn unig. Mae tuedd gyffredinol o ran hunanladdiad ymhlith dynion, ymhlith pobl dros 65 oed a phobl ifanc.



Mae atal salwch corfforol a meddyliol trwy greu amgylchedd sy'n hyrwyddo bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chymryd rhan yn eu cymuned berthnasol. Felly, mae'n hanfodol bwysig cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy gael eich geni i Sir Gaerfyrddin sydd ag

amgylchedd iach, gydag ecosystemau gweithredol ac ychydig iawn o lygredd gan gynnwys aer, golau a sŵn. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau Arolwg Preswylwyr Sir Gaerfyrddin a oedd yn nodi bod cytundeb cyffredinol y dylid ystyried cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl. Gwyddom fod Seilwaith Gwyrdd a Glas yn hanfodol i gynnal a hyrwyddo iechyd a llesiant, yn enwedig fel mesur ataliol. Ledled y DU, mae Fields in Trust yn amcangyfrif bod budd llesiant mannau gwyrdd hygyrch yn fwy na £34 biliwn y flwyddyn, gan arbed o leiaf £111 miliwn y flwyddyn i'r GIG drwy leihau ymweliadau â'r meddyg teulu. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas hygyrch o ansawdd sydd wedi'i integreiddio â theithio llesol gynyddu gweithgarwch corfforol ochr yn ochr â chysylltiad â natur.



## Darparu ar gyfer ein Poblogaeth yn y Dyfodol

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022 yn rhoi cyfanswm poblogaeth o 189,117 o drigolion i Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu mai dyma'r awdurdod lleol 4ydd mwyaf yng Nghymru. Mae mudo net yn parhau i fod yn brif ysgogydd o ran newid yn y boblogaeth ac erbyn 2043, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu i 197,218. Fodd bynnag, mae'n cynnwys heriau demograffig yn y dyfodol, sy'n cynnwys cyfradd eni sy'n gostwng ac, fel y trafodir yn nes ymlaen, poblogaeth sy'n heneiddio. Fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2032, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud darpariaeth ar gyfer 9,704 o gartrefi newydd i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 8,822 dros gyfnod y cynllun. Mae'r lefel hon o dwf yn y dyfodol yn darparu'r sylfaen ar gyfer cynnal egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ymateb i anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac economi sy'n bwysig yn rhanbarthol. Gall tai o ansawdd sy'n cadw at ddull Seilwaith Gwyrdd a Glas hybu iechyd a llesiant, gan ddiwallu anghenion unigol y trigolion a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt. Serch hynny, bydd datblygiad pellach yn rhoi pwysau ar wasanaethau lleol gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd a Glas megis parciau a mannau gwyrdd. Mae hyn yn ychwanegol at y posibilrwydd o greu effeithiau amgylcheddol ar adnoddau naturiol, er y bydd Seilwaith Gwyrdd a Glas yn chwarae rhan hanfodol wrth liniaru'r rhain.

## Darparu ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, lle mae 11% o boblogaeth y Sir yn 75 oed neu'n hŷn (yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 9.8%). Yng Nghymru, rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn yn cynyddu 24.2% i 381,000 rhwng 2021 a 2031. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r GIG a'r Awdurdodau Lleol gynllunio ar gyfer y galw cynyddol ddisgwyliedig am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth arbenigol ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran megis dementia a diabetes. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn cydnabod bod llawer o'r gwasanaethau atal a'r ymyriadau y tu allan i'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys diogelu'r ddarpariaeth o fannau cyhoeddus awyr agored hygyrch, megis parciau a rhandiroedd, a all roi cyfle i bobl gadw'n ffit yn gorfforol ac yn iach yn feddyliol wrth iddynt heneiddio.

## Gwneud ein Cymunedau'n Fwy Diogel ac yn Fwy Cydlynol

Mae cyfraddau troseddu yn cynyddu mewn rhai ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin, er gwaethaf ei bod yn y 13eg safle mwyaf diogel o'r 22 sir yng Nghymru gyda chyfradd o 83.6 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Er ei bod yn parhau i fod un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y DU, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i gynnal a hyrwyddo hyn yn enwedig yn yr amgylchfyd cyhoeddus. Mae mannau agored poblogaidd yn darparu cyfleoedd ardderchog ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol, sy'n cyfrannu at dwf cymunedau cryf a chydnerth. Yn ogystal, gwelwyd bod presenoldeb mannau gwyrdd gan gynnwys parciau a choed yn lleihau nifer yr achosion o droseddau treisgar mewn ardaloedd trefol. Mae creu amgylcheddau diogel, cynhwysol trwy 'ddylunio i atal troseddau' yn agwedd allweddol ar greu lleoedd, ac mae'n ofynnol ystyried hynny yn strategol wrth ddatblygu unrhyw nodwedd o'r amgylchedd adeiledig.

Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas Hygyrch ddarparu lle pwysig i gymunedau gysylltu a rhannu profiadau bob dydd. Er eu bod o fudd uniongyrchol i unrhyw un sy'n ymweld â nhw, gwelir buddion anuniongyrchol hefyd ar draws cymunedau trwy'r nwyddau cyhoeddus a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos bod menywod a merched yn aml yn teimlo'n llai diogel mewn parciau a mannau gwyrdd agored sy'n effeithio ar eu hawydd i ymweld â nhw, ac mae rhai grwpiau demograffig-gymdeithasol hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgarwch corfforol. Er nad yw dylunio a rheoli ystyriol yn gallu mynd i'r afael â'r holl rwystrau a allai atal grwpiau penodol rhag defnyddio Seilwaith Gwyrdd a Glas hygyrch, drwy gymorth, cyllid a chynllunio gofalus, gall pawb fwynhau'r buddion yn fwy cyfartal.

Fel y nodwyd yn asesiad llesiant lleol Sir Gaerfyrddin, mae bwlio yn broblem sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl ifanc, a'u gallu i gysylltu â chymdeithas. Gall dylunio man chwarae ystyriol helpu i leihau achosion o wrthdaro trwy integreiddio goruchwyliaeth oddefol, hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, ac annog chwarae cydweithredol. Gall hyrwyddo cyfleoedd dysgu anffurfiol hefyd ddarparu lle i blant sy'n teimlo fel y gallant fynegi eu hunain yn well a dysgu mwy yn yr awyr agored. Mae mynediad at natur ar gyfer iechyd corfforol a llesiant yn hanfodol i ddarparu

plant â'r blociau adeiladu am oes a gall helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

### Mynd i'r afael ag Ansawdd Dŵr

Mae ein hamgylchedd dŵr yn darparu llawer o wasanaethau ecosystemau i ni, y mae llawer ohonynt yn cyfrannu at lesiant cymunedau lleol a'r boblogaeth ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys darparu dŵr yfed ffres, dŵr ar gyfer diwydiant ac amaethyddiaeth, ac afonydd a moroedd glân ar gyfer cynefin, hamdden a mwynhad. Yn Sir Gaerfyrddin, mae ansawdd dŵr yn cael ei effeithio'n bennaf gan garthffosiaeth ac amaethyddiaeth sy'n cynyddu llygredd nitrad, ffosfforws a gwaddodion. Dangosir hyn drwy'r argyfwng ffosffad presennol lle canfu asesiad cydymffurfiaeth yn erbyn safonau llymach ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol fod dros 60% o gyrff dŵr wedi methu, ac, o ran Sir Gaerfyrddin, gwelwyd bod methiannau yn Afon Cleddau ac Afon Teifi. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygiad cartrefi newydd mewn ardaloedd gwledig. Gellir gwella ansawdd dŵr trwy fesurau megis dylunio effeithiol, adeiladu a gweithredu systemau carthffosiaeth, fodd bynnag, gall defnyddio atebion seiliedig ar natur megis gwlyptiroedd, systemau draenio cynaliadwy neu fannau gwyrdd hefyd ddiogelu ansawdd dŵr gan gynnig buddion penodol eraill gan gynnwys lliniaru llifogydd a chynefinoedd dyfrol.

### Mynd i'r afael ag Ansawdd Aer

Mae aer glân yn hanfodol er lles y cyhoedd ac yn hanfodol nid yn unig i'n hiechyd, ein llesiant ac er mwyn galluogi mwy o weithgarwch corfforol, ond hefyd i fywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae llygredd aer yn digwydd mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac yn effeithio mewn modd anghyfartal ar y rhai mewn ardaloedd difreintiedig. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddatgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer os nad yw'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn debygol o gael eu bodloni. Yn Sir Gaerfyrddin, mae gennym dair ardal o'r fath – Llandeilo (datganwyd yn 2011), Llanelli, a Chaerfyrddin (datganwyd y ddwy yn 2016). Mae annog y defnydd o deithio llesol, cynyddu gorchudd canopi coed, a chreu mannau gwyrdd o ansawdd yn elfennau allweddol i helpu i leihau allyriadau traffig sy'n achosi'r tri methiant hyn. Yn ogystal, mae sawl ardal yn y Sir yn dal i brofi problemau gyda thanau gwyllt bwriadol. Mae llosgi bwriadol yn creu cryn ddifrod i'r amgylchedd, gan effeithio'n bennaf ar ansawdd aer ond hefyd difrodi

cynefinoedd bregus, mannau agored a phori. Ochr yn ochr â hyrwyddo mabwysiadu arferion rheoli tir priodol, gall asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas megis coed stryd a choetiroedd weithredu fel atebion seiliedig ar natur tuag at sicrhau ansawdd aer da.

## Ymateb i’r Argyfyngau Hinsawdd a Natur

Yng Nghynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, cam allweddol a nodwyd i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn yw "ymgorffori dull partneriaeth o ddatblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas". Mae'r strategaeth bresennol yn nodi'r camau strategol a gymerwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni'r camau hyn.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gyflymu ei ymrwymiad a'i gyfraniad at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ar ôl datgan argyfwng natur yn 2022. O ganlyniad, yn unol â hyd a lled swyddogaeth a dyletswyddau'r Cyngor, mae'n rhaid iddo ystyried y camau angenrheidiol tuag at fynd i'r afael â'r heriau hyn. Y gred yw bod y straen a roddir ar Rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i dywydd eithafol a cholli bioamrywiaeth yn cynyddu dros y ganrif nesaf. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnig rhagolygon sylweddol ar gyfer lliniaru ac addasu tuag at newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag adfer a gwarchod natur.



Trafodir agweddau penodol ar yr argyfyngau hinsawdd a natur mewn perthynas â'u heffaith ar y Sir a'i hasedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn fanylach isod. Mae llawer o'r rhain hefyd yn gysylltiedig â hyrwyddo Amcanion Llesiant eraill, gan gynnwys y rhai cenedlaethol ar gyfer "Cymru gydnerth" a "Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang".

## Cydnerthedd Llifogydd

Mae'r mwyafrif o aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin wedi eu lleoli ger afonydd neu'r arfordir. Ar hyn o bryd, mae dros 15,000 o eiddo yn y Sir yn profi rhyw lefel o berygl llifogydd gan gynnwys llifogydd dŵr wyneb, afonol neu orlifo arfordirol. Mae 3,151 eiddo yn wynebu risg uchel, 2,292 yn wynebu risg canolig, ac mae 9,713 eiddo yn wynebu risg isel. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn eiddo preswyl.

Gall newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol gynyddu nifer y tai, seilwaith a gwasanaethau allweddol sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi pum cymuned yn Sir Gaerfyrddin sydd fwyaf mewn perygl. Mae Llanelli yn cael ei hystyried yn 'ardal lle ceir perygl mawr o lifogydd' gan ei bod ymhlith rhai o'r prif fannau o ran perygl llifogydd yng Nghymru Mae ardaloedd eraill ar y gofrestr yn cynnwys Rhydaman, Glanyfferi, Llwynhendy, a Dafen.






Mae ymagwedd gyfannol at reoli dŵr wyneb yn hanfodol er mwyn cyfyngu ar y risg o lifogydd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol neu ardaloedd sydd â llawer iawn o arwynebau caled anathraidd. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i gynyddu cydnerthedd llifogydd trwy atal glaw ac arafu dŵr. Gall hyn gynnwys ymyriadau strategol, ar lefel dalgylch megis bioswales ar raddfa fawr, neu ymyriadau ar raddfa lai megis cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy a choed stryd mewn datblygiad.

## Creu Cynefin i Fioamrywiaeth

Mae cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol yn cael ei fygwth gan newid yn yr hinsawdd, datblygiad, arferion rheoli tir anghynaladwy, llygredd, a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol. Yn fyd-eang, mae colli bioamrywiaeth yn cyflymu gyda chyfraddau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn hanes o ran rhywogaethau yn diflannu. Bu i adroddiad Cyflwr Natur 2023 ganfod, o blith y rhywogaethau a aseswyd, fod helaethrwydd rhywogaethau (nifer y rhywogaethau unigol) wedi gostwng 20% ar gyfartaledd, a bod 1 o bob 6 mewn perygl o ddiflannu. Yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael, mae llawer o Rywogaethau â Blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn gostwng, gan gynnwys y rhai a oedd ar un adeg yn llawer mwy cyffredin fel y Brithribinau Brown a'r Gylfinirod sy'n nythu. Mae Turturod a Bras yr Ŷd wedi diflannu o'r awyr yn Sir Gaerfyrddin. Serch hynny, mae yna hefyd lwyddiannau cadwraethol, gyda chamau gweithredu wedi'u targedu ac ymdrech o ran gwaith arolygu yn arwain at ailddarganfod Tegeirian y Fign a Chacynen Gynefinol, y tybiwyd eu bod wedi diflannu yn y Sir ar un adeg.



Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol hefyd yn cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, ac economaidd. Mae cynllunio strategol yn rhan annatod o gyflawni hyn, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus '...cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny'. Mae sicrhau y caiff asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol megis safleoedd cadwraeth natur eu rheoli'n gynaliadwy; hyrwyddo'r gwaith o integreiddio nodweddion cynefin mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas Trefol gan gynnwys darpariaeth mannau agored presennol; a chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo cysylltedd ecolegol lle mae bylchau wedi'u nodi o fewn y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyd yn ffyrdd uniongyrchol o gynnal hyn. Yn ogystal, mae gwreiddio egwyddorion creu lleoedd o fewn cynlluniau defnydd tir hefyd yn cydymffurfio trwy hyrwyddo cysyniadau megis budd net i fioamrywiaeth yn ogystal â dull Seilwaith Gwyrdd a Glas, mecanweithiau a all greu cynefin newydd a chynyddu cydnerthedd ecosystemau.

## Creu Cyfleoedd Addysgol

Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n hygyrch i'r cyhoedd chwarae rhan allweddol wrth werthfawrogi gwerth ein hamgylchedd yn fwy yn ogystal â'r heriau y mae'n eu hwynebu. Er bod cyrhaeddiad addysgol plant yng Nghymru wedi gwella'n gyffredinol, mae plant sy'n byw mewn amddifadedd yn dangos cyrhaeddiad gwaeth o ran pob mesur perfformiad. Dangosir bod treulio amser ym myd natur yn darparu ystod o fuddion llesiant i bobl o bob oed. Dangoswyd hefyd fod addysg sy'n seiliedig ar natur yn gwella perfformiad academaidd, yn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, ac yn arwain at gyfraddau presenoldeb gwell mewn ysgolion, a gall fod yn hynod werthfawr i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, gall yr awyr agored fod yn lleoliad gwych ar gyfer hyrwyddo dysgu, dealltwriaeth a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas Hygyrch hefyd ddarparu cyfleoedd dysgu anffurfiol trwy chwarae a all gynnig manteision gydol oes.






## Lleihau Allyriadau trwy Deithio Llesol

Gan ddilyn yr un patrwm ag a welir ledled Cymru, mae allyriadau carbon deuocsid y pen yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau. Er bod allyriadau o drafnidiaeth yn gostwng yn lleol, mae'n parhau i gyfrannu at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol, yn ogystal â llygryddion awyr eraill gan gynnwys deunydd gronynnol. Mae hyrwyddo teithio llesol, gwella'r rhwydwaith teithio llesol, ochr yn ochr â chreu Seilwaith Gwyrdd a Glas sydd â'r nod o liniaru llygredd aer ac ategu'r ddarpariaeth teithio llesol, yn allweddol i leihau allyriadau ymhellach. Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r agenda Sero Net, yn ogystal â'r egwyddor o leihau effeithiau amgylcheddol o drafnidiaeth fel y'u mabwysiadwyd o fewn Trawsnewidiadau 2015–2030 – y cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

## Dal a Storio Carbon

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn allyrrydd net o ran carbon deuocsid, ac mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fod yn Sero Net erbyn 2030. Mae gallu asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas penodol i storio carbon o'r atmosffer yn swyddogaeth bwysig sydd wedi cael llawer o sylw yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd. Er bod coed a choetiroedd yn cael eu nodi'n aml, mae'r rhan fwyaf o Seilwaith Gwyrdd a Glas yn dal ac yn storio rhywfaint o garbon, boed hynny o fewn briddoedd, llystyfiant, neu organebau byw eraill. Mae diogelu cynefinoedd lled-naturiol yn ofodol a'u rheoli'n gynaliadwy yn ffyrdd hanfodol o sicrhau bod dal a storio carbon yn parhau i gael ei ddarparu fel gwasanaeth ecosystem. Serch hynny, fel y cydnabyddir yn Strategaeth Coed a Choetir Sir Gaerfyrddin, mae sefydlu coetiroedd newydd i gynyddu gorchudd coed cyffredinol o fewn y Sir yn un offeryn allweddol ar gyfer cyrraedd targedau Sero Net, gan hefyd ddarparu buddion i fioamrywiaeth, pobl a'r economi leol.



## Lliniaru Gwres Trefol

Gall tymereddau cynyddol a chyfnodau o wres mawr gael dylanwadau sylweddol ar iechyd dynol, cynhyrchiant economaidd, ac amaethyddiaeth trwy les anifeiliaid, mwy o alw am ddŵr, a chnydau penodol sydd ar gael. Yn ogystal, gall amgylcheddau trefol dwys heb fannau gwyrdd waethygu tymereddau aer amgylchynol lleol drwy ffenomen a elwir yn 'effaith ynys gwres trefol'. Er bod hyn wedi'i gofnodi'n bennaf mewn canolfannau poblogaeth mawr, yn y dyfodol gallai hyn effeithio ar aneddiadau o faint a chymeriad a geir yn Sir Gaerfyrddin. Serch hynny, gall gwyrddu trefol – cynnwys llystyfiant yn yr amgylchedd adeiledig - a mannau agored cyhoeddus o ansawdd helpu i leihau tymereddau a darparu cysgod gwerthfawr. Mewn gwirionedd, gall cymdogaethau o fewn 10 munud ar droed i barc fod hyd at 3°C yn oerach na'r rhai y tu allan i'r ystod honno. Gellir gwella'r tymheredd mewn adeiladau hefyd trwy Seilwaith Gwyrdd a Glas. Dangoswyd bod waliau a thoeau gwyrdd, a choed stryd yn lleihau gofynion ynni ar gyfer oeri trwy ddarparu cysgod a rheoleiddio lleithder aer, a hefyd gwresogi trwy ddarparu cysgod rhag tywydd gwael.

# Atodiad B: Y Cyd-destun o ran Polisi

| Lleol | |
|---|---|
| Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027 | Mae'r weledigaeth yn blaenoriaethu mynd i'r afael â thlodi a newid yn yr hinsawdd, cryfhau'r economi a chynyddu ffyniant, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith, a'r amgylchedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. |
| Strategaeth Gorfforaethol 2022–2027 | Wedi'i gyrru gan y datganiad gweledigaeth uchod, mae'r strategaeth hon yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer yr awdurdod lleol dros y 5 mlynedd nesaf, gan ymgorffori amcanion llesiant lleol. Mae'n cynnwys ystod o egwyddorion sy'n ymwneud â phob cam o fywyd, ac yn nodi uchelgais i sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn 'brif dref beicio Cymru' gan gyflawni glasffyrdd, llwybrau a seilwaith eraill. |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28 | Fel un cam gweithredu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin, mae'r cynllun hwn yn tynnu sylw at wreiddio 'trefn partneriaeth ar gyfer datblygu seilwaith Gwyrdd a Glas.' Mae gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cael ei nodi fel cam gweithredu i gyflawni amcan 3 – ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur. |
| Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (2018-2033) (yn amodol ar ei fabwysiadu) | Mae'r cynllun datblygu hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer holl ddatblygiadau'r dyfodol yn y Sir (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'n llywio cyfleoedd buddsoddi a rhaglenni gwella seilwaith yn y dyfodol, ac yn llywio'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae hefyd yn cynnwys polisïau penodol ar gyfer gwreiddio dull Seilwaith Gwyrdd a Glas i sicrhau datblygu cynaliadwy a chynnal egwyddorion creu lleoedd. |
| Blaengynllun ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'r cynllun hwn wedi'i lunio yn unol â goblygiadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r cynllun yn nodi'n glir bwysigrwydd gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas. |
| Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol 2024-2030 (yn amodol ar ei mabwysiadu) | Mae'r strategaeth hon yn egluro ein sefyllfa bresennol o ran rheoli perygl llifogydd, ein nodau ar gyfer 2030 a sut y byddwn yn eu cyflawni. Lle bo'n ymarferol, nod ymyriadau o dan y strategaeth hon yw dilyn dull Seilwaith Gwyrdd a Glas. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Coed a Choetir 2023-2028 (yn amodol ar ei mabwysiadu) | Mae'r strategaeth hon yn cyflawni mewn perthynas â'r argyfyngau hinsawdd a natur trwy reoli coed yn gynaliadwy a chreu coetiroedd. Mae'n cydnabod pwysigrwydd atebion ar sail natur sy'n cefnogi datblygiad economaidd-gymdeithasol, lle mae coed a choetiroedd yn asedau allweddol Seilwaith Gwyrdd a Glas. |
| Strategaeth Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol (2024) (yn amodol ar ei mabwysiadau) | Pwrpas y strategaeth hon yw rhoi cyfle i fwy o bobl drochi eu dwylo a thyfu eu bwyd eu hunain. Mae hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o atebion yn seiliedig ar leoedd ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae mannau tyfu yn asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas allweddol sy'n darparu manteision amlswyddogaethol. |
| Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored (2022-2033) (yn amodol ar ei mabwysiadu) | Gan ganolbwyntio ar helpu i greu lleoedd lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â nhw, mae'r strategaeth lefel uchel hon yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfarwyddo'r Gwasanaeth Hamdden i sicrhau iechyd a llesiant y cyhoedd wrth hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymunedol. |
| Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio (2024-29) (yn amodol ar ei mabwysiadu) | Mae'r strategaeth hon yn anelu at gynyddu arwynebedd a maint y cynefin glaswelltir llawn blodau gwyllt a reolir gan y Cyngor ar laswelltir amwynder gymaint â phosibl. Fe'i lluniwyd mewn ymateb i weledigaeth i gynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. |
| Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2019 - 2029) | Mae'r cynllun hwn yn manylu ar reolaeth strategol, datblygiad a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o'r rhain yn asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas allweddol sy'n cydgysylltu ein cymunedau. |
| Llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030 | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i'r agenda Sero Net ac mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni. Er mai'r dull a ffefrir o wneud iawn am ôl-troed carbon gweddilliol yw cynyddu'n sylweddol faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, bydd gwrthbwyso drwy blannu coed yn cael ei archwilio. |
| Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Gaerfyrddin 2020-2030 | Mae'r cynllun hwn, a luniwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Gâr, yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau lleol mewn perthynas ag amcanion cenedlaethol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. |

| Rhanbarthol | |
|---|---|
| Datganiadau Ardal CNC (2021) | Mae’r Datganiadau Ardal yn amlinellu’r heriau allweddol sy’n wynebu ardaloedd lleol, cyfleoedd i gwrdd â’r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau’r dyfodol. Y themâu ar gyfer De-orllewin Cymru yw lleihau anghydraddoldebau iechyd; sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir gan wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella; a’r themâu ar gyfer yr ardal forol yw adeiladu gwytnwch ecosystemau morol; Atebion Seiliedig ar Natur ac addasu ar yr arfordir; a gwneud y gorau o gynllunio morol. Mae gan y ddwy thema drawsbynciol o liniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid. |

| Cenedlaethol | |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru i ddiwallu'r anghenion presennol heb gyfaddawdu'r gallu i genedlaethau'r dyfodol fodloni eu rhai hwy. Sefydlodd saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt, ac mae'n cynnwys dangosyddion sy'n gysylltiedig â Seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer monitro gweithredu, megis: Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru; Statws Amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru; Canran y cyrff dŵr sy'n cyflawni statws cyffredinol da neu uchel; Ôl Troed Ecolegol Cymru; Canran y bobl sy’n teimlo’n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae'r ddeddf hon yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae’r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, a elwir yn Ddyletswydd Adran 6, y mae’n rhaid iddynt geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny’n gyson â chyflawni eu swyddogaethau’n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny. |
| Polisi Adnoddau Naturiol (2017) | Mae'r polisi hwn yn ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'n amlinellu tair blaenoriaeth: Cyflwyno Atebion Seiliedig ar Natur; cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon; a mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar leoedd. |

| | |
|---|---|
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2016 | Mae'r Ddeddf hon yn darparu fframwaith i reoli defnydd tir yn gynaliadwy i gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r nodau llesiant cenedlaethol. |
| Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 | Mae Pennod chwech o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) yn nodi ffocws cynllunio gofodol Cymru o gynnal ac ymgorffori Seilwaith Gwyrdd a Glas fel elfennau allweddol o leoedd unigryw a naturiol sy'n sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau posibl i gymunedau. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod awdurdodau cynllunio yn mabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â Seilwaith Gwyrdd a Glas a bioamrywiaeth drwy lunio Asesiadau Seilwaith Gwyrdd cyfredol. Yn ogystal, dylai pob cais cynllunio bellach gyflwyno datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n disgrifio sut mae Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi'i ymgorffori yn eu cynigion. |
| Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) | Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ynghylch sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. |
| Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016) | Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut y gall hyrwyddo cynaliadwyedd drwy waith dylunio da gael ei gyflawni drwy'r system gynllunio. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o sut y gall mesurau addasu i'r hinsawdd gynnig ystod o fanteision a chefnogi amcanion eraill dylunio da (fel hyrwyddo bioamrywiaeth trwy ymgorffori toeau gwyrdd). |
| Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (i ddod) | Mae'r canllawiau hyn yn nodi, drwy gyfuno asedau draenio ac amddiffyn rhag llifogydd hanfodol â seilwaith gwyrdd a thir cyhoeddus o safon, bod integreiddio systemau draenio cynaliadwy (SDCau) mewn datblygiadau yn gyfle i gyflawni ystod o ganlyniadau cadarnhaol. |
| Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored | Mae'n darparu cyngor i gymunedau, datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru sy'n paratoi cynlluniau datblygu lleol ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio o ran chwaraeon, hamdden a mannau agored. |
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | Mae'r mesur hwn yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant (a elwir yn Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae). Gall llawer o asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer chwarae. |

| | |
|---|---|
| Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 | O dan y ddeddf hon, mae angen Systemau Draenio Cynaliadwy ar gyfer datblygiadau penodol. Mae'n rhaid i'r math hwn o Seilwaith Gwyrdd a Glas gadw at egwyddorion sylfaenol draenio cynaliadwy, sef: faint o ddŵr, ansawdd dŵr, amwynder gweledol a bioamrywiaeth. |
| Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru (2016) | Gan gynnal y Ddeddf gysylltiedig, mae'r cynllun hwn yn amlinellu mentrau a fydd yn gwella lefelau cerdded a beicio yng Nghymru i sicrhau'r manteision y mae teithio llesol yn eu darparu ar gyfer iechyd a chymdeithas. |
| Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned 2010 | Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ceisio hyrwyddo ac annog tyfu cymunedol ledled Cymru i weithio tuag at ddiogelwch bwyd trwy gynnyrch lleol, cysylltu pobl â'r gadwyn fwyd, gwella iechyd a llesiant, darparu arfer gorau i gymunedau'r dyfodol a chynyddu diddordeb mewn tyfu bwyd. |
| Statws Carbon SeroNet erbyn 2030 | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus erbyn 2030 drwy fframwaith strategol gan gynnwys blaenoriaeth i leihau allyriadau mewn Adeiladau; Symudedd a Thrafnidiaeth; Caffael; a Defnydd Tir, |

# Atodiad C: Safleoedd Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol

Gan gyfrannu at Rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol Sir Gaerfyrddin nid yw'r rhestr ganlynol o safleoedd Seilwaith Gwyrdd a Glas graddfa strategol yn gynhwysfawr ac mae wedi'i rhannu dros bum categori penodol.

## Safleoedd Dynodedig ar gyfer Cadwraeth Ddaearegol/Natur

Mae safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth ddaearegol neu natur yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfrannu at Seilwaith Gwyrdd a Glas strategol trwy wasanaethu fel elfennau allweddol rhwydwaith cysylltiedig o ardaloedd gwarchodedig ac ardaloedd a reolir. Gall integreiddio'r safleoedd hyn i gynllunio lleol ac ystyriaeth ehangach o Seilwaith Gwyrdd a Glas wella cysylltedd tirwedd, gwarchod cynefinoedd hanfodol, a hyrwyddo arferion defnydd tir cynaliadwy sydd o fudd i bobl a'r amgylchedd. Mae'r manteision eraill y mae'r safleoedd hyn yn eu darparu'n aml yn canolbwyntio ar:

- Cysylltedd Cynefinoedd: Mae safleoedd cadwraeth natur yn helpu i gynnal a gwella cysylltedd cynefinoedd trwy ddarparu coridorau i fywyd gwyllt symud rhwng gwahanol ecosystemau, gan hyrwyddo bioamrywiaeth ac amrywiaeth genetig.
- Gwasanaethau Ecosystemau: Mae'r safleoedd hyn yn cynnig ystod o wasanaethau ecosystem fel dal carbon, puro dŵr, peillio, a chadw pridd, sy'n hanfodol ar gyfer cefnogi llesiant dynol a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Lliniaru ac Addasu o ran Newid Hinsawdd: Maent hefyd yn cyfrannu at liniaru newid hinsawdd trwy storio carbon mewn llystyfiant a phriddoedd, ynghyd â helpu cymunedau i addasu i effeithiau newid hinsawdd trwy reoli llifogydd a rheoleiddio tymheredd mewn modd naturiol.
- Hamdden ac Addysg: Mae'r safleoedd hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, twristiaeth yn seiliedig ar natur, ac addysg amgylcheddol, gan feithrin gwell cysylltiad rhwng pobl a natur.
- Ymchwil a Monitro: Mae ardaloedd cadwraeth natur yn gwasanaethu fel labordai byw ar gyfer ymchwil wyddonol, monitro tueddiadau bioamrywiaeth, ac astudio dynameg ecosystem, a all lywio strategaethau cadwraeth ac arferion rheoli tir.

Mae nifer o fathau o ddynodi, pob un at ddiben penodol sy'n gysylltiedig ag arwyddocâd y cynefin a/neu'r rhywogaethau penodol a geir yn y safle hwnnw. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r rhain yn cynnwys:

### Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

Mae wyth o'r safleoedd hyn wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt:

- Afon Teifi
- Afon Tywi
- Afonydd Cleddau
- Bae Caerfyrddin a’r Aberoedd
- Twyni Bae Caerfyrddin
- Cwm Doethïe - Mynydd Mallaen
- Caeau'r Mynydd Mawr
- Cernydd Carmel

### Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

Mae tri o'r safleoedd hyn wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt:

- Cilfach Tywyn (sydd hefyd yn safle Ramsar)
- Elenydd Mallaen
- Bae Caerfyrddin

#### *Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig*

Mae 89 o'r safleoedd hyn gan gynnwys tri y mae dim ond rhan ohonynt yn Sir Gaerfyrddin:

- Aber Taf
- Afon Cleddau Dwyreiniol
- Afon Teifi
- Afon Tywi

- Rhan o Nant Allt Penycoed
- Allt y Gaer
- Allt y Wern
- Arfordir Marros-Pentywyn
- Arfordir Pen-bre
- Arfordir Saundersfoot - Telpyn
- Cors Beacon
- Chwarel Birdshill
- Pwll Bishop
- Derwen-fawr a Dolydd Thornhill
- Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr
- Cae Blaen-dyffryn
- Cae Cwm-tywyll
- Cae Gwynfryn
- Caeau Afon Gwili
- Caeau Blaenau-mawr
- Caeau Blaen-bydernyn
- Caeau Blaen-yr-Orfa
- Caeau Bryn Ifor
- Caeau Capel Hendre
- Caeau Caradog
- Caeau Ffos Fach
- Caeau Lotwen
- Caeau Nant Garenig
- Caeau Nantsais
- Caeau Pant-y-Bryn
- Caeau Rhyd-y-gwiail
- Cefn Blaenau
- Cernydd Carmel
- Chwarel Talar Wen
- Chwarel Coed Cochion
- Coed Gwempa

- Coed Llandyfân
- Coedydd Capel Dyddgen
- Coedydd y Garn
- Cors Farlais
- Cors Goch, Llan-llwch
- Corsydd a Rwyth Cilyblaidd
- Craig Ddu – Trwyn Wharley
- Creigiau Llansteffan
- Chwarel Fferm Crug
- Traciau Coedwig Crychan
- Cwm Clydach, Cydweli
- Darn o Ffordd Cwm Crymlyn
- Cwm Doethïe - Mynydd Mallaen
- Cwm Twrch
- Darn o Nant Cwm yr Abaty
- Chwarel Dan-Lan-y-Castell
- Dôl Derwen-fach
- Ystad Dinefwr
- Mwyngloddiau Aur Dolaucothi
- Dolydd Felin Fach, Cwmgwili
- Hafn Rheilffordd Ffair Fach a Darn o'r Afon
- Darn o Nant Glan Pibwr
- Gwel y Coed
- Gwernydd Pen-bre
- Gweunydd a Choed Pen-Tŷ
- Gweunydd Glan-y-glasnant
- Darn o drac Llanfallteg
- Llety - Wen
- Llyn Llech Owain
- Llyn Pencarreg
- Llynnoedd Tal-y-llechau, (Talley Lakes)
- Maesyprior

- Mandinam a Choed Deri
- Darn o Heol Meidrim
- Mwyngloddfa Nantymwyn
- Darn o Heol Mylett
- Mynydd Llangyndeyrn
- Mynydd Ystyfflau-Carn
- Dôl Pine Lodge
- Chwarel Pont-y-Fenni a Hafn Ffordd
- Merllyn y Pwll
- Pyllau MachynysRhos Dolau-Bran
- Rhos Pwllygawnen
- Rhosydd Castell-du a Phlas-y-bettws
- Rhosydd Llanpumsaint
- Chwarel Smarts
- Twyni Lacharn - Pentywyn
- Waun-fawr
- Chwarel a Rhan o Nant Wernbongam
- Whitehill Down
- Brigiadau Daearegol Dyffryn Ydw a Heol y Fron
- Ynys Uchaf

### Gwarchodfeydd Natur Lleol

Mae chwech (o bosibl saith) o Warchodfeydd Natur Lleol wedi'u dynodi o dan Adran 21 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, sef

- Morfa Berwig
- Twyni a Morfa Pen-bre
- Y Pwll Lludw a Merllyn y Pwll
- Twyni Doc y Gogledd (y cyfan yn ardal arfordirol Llanelli)
- Carreg Cennen
- Glan-yr-Afon, Cydweli
- Ynys Dawela (Gwarchodfa Natur Leol bosibl)

### Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Mae cyfanswm o bum Gwarchodfa Natur Genedlaethol wedi'u dynodi o dan Ran III o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, sef:

- Carmel (Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru)
- Cors Goch, Llan-llwch (Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru)
- Gwenffrwd Dinas (y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar)
- Waun Las (Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru)
- Dinefwr (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

### Safleoedd Daearegol o bwys Rhanbarthol (y cyfeirir atynt hefyd fel RIGS)

Ystyrir hefyd bod y safleoedd hyn yn elfennau hanfodol o Seilwaith Gwyrdd a Glas strategol oherwydd eu cyfraniadau sylweddol i amrywiaeth tirwedd, cadwraeth ac addysg. Maent yn darparu ffenestr i'r gorffennol daearegol, gyda nodweddion dynodedig a all ddylanwadu ar brosesau hydrolegol, ffurfiant pridd, a chylchrediad maetholion. Mae 50 o'r safleoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin, ac mae rhai nodedig wedi'u lleoli yn:

- Coedwig Crychan
- Llyn Brianne
- Gerddi Aberglasne
- Dinas-y-bwlch
- Trwyn Gilman, Pentywyn

### Parciau Gwledig

Yn wir, gall parciau gwledig fod yn elfennau gwerthfawr o Seilwaith Gwyrdd a Glas, gan gynnig ystod o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i gymunedau lleol. Dyma rai o’r ffyrdd y mae parciau gwledig yn cyfrannu at Seilwaith Gwyrdd a Glas:

- Hamdden a Llesiant: Mae parciau gwledig yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymarfer corff ac ymlacio yn yr awyr agored, gan hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol ymhlith ymwelwyr.
- Rheoli Dŵr: Gall y rhai sydd â llynnoedd, pyllau neu wlyptiroedd helpu i reoli dŵr ffo storm, gwella ansawdd dŵr, a darparu gwasanaethau ecosystem gwerthfawr.

- Gwerth Addysgol a Diwylliannol: Mae parciau gwledig yn aml yn cynnal rhaglenni addysgol, digwyddiadau ac arddangosfeydd dehongli sy'n codi ymwybyddiaeth am natur, cadwraeth a threftadaeth ddiwylliannol.

Dyma restr o Barciau Gwledig yn Sir Gaerfyrddin:

- Parc Gwledig Pen-bre
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain
- Parc Coetir y Mynydd Mawr
- Parc Gwledig Gelli Aur (sy'n eiddo preifat i'r Golden Grove Trust)

Er nad ydynt yn Barciau Sirol dynodedig, mae gan Sir Gaerfyrddin hefyd nifer o barciau hamdden mawr sy'n cynnwys:

- Parc Hamdden Allt Nant-y-Ci
- Parc Hamdden Gelliwerdd
- Parc Hamdden Gwlyptiroedd Caerfyrddin

Yn ogystal, mae'r sir hefyd yn gartref i Barc Arfordirol y Mileniwm sydd â milltiroedd o lwybrau beicio a cherdded arfordirol i'w mwynhau.

### Safleoedd Hanesyddol

Gall safleoedd hanesyddol wasanaethu fel Seilwaith Gwyrdd a Glas strategol, gan roi cyfle unigryw i gyfuno treftadaeth ddiwylliannol â chadwraeth amgylcheddol. Mae nifer o fanteision penodol yn cynnwys:

- Gwerth Diwylliannol a Hamdden: Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn safleoedd wella profiad yr ymwelwyr, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymlacio a gwerthfawrogiad diwylliannol ochr yn ochr ag addysg ar hanes a threftadaeth adeiledig.
- Cadwraeth Treftadaeth: Gall integreiddio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn modd sensitif helpu i warchod cyfanrwydd hanesyddol y safle ynghyd â gwella ei gynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir am erddi cofrestredig.

- Cadwraeth Bioamrywiaeth: Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas a ymgorfforir mewn safleoedd hanesyddol yn darparu cynefinoedd ar gyfer fflora a ffawna a gall wella bioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol.
- Ymgysylltu Cymunedol: Gall prosiectau Seilwaith Gwyrdd a Glas a chyfleoedd gwirfoddoli feithrin cyfranogiad cymunedol, addysg ac ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cadwraeth amgylcheddol a chadwraeth treftadaeth.

Mae'r safleoedd hanesyddol hynny sy'n cyfrannu at Rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Strategol Sir Gaerfyrddin yn cynnwys:

- Castell Dryslwyn
- Castell Carreg Cennen
- Castell Cydweli
- Castell Talacharn
- Castell Llansteffan
- Castell Castellnewydd Emlyn
- Abaty Talyllychau
- Castell Llanymddyfri
- Castell Dinefwr (gan gynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol sy'n ei amgylchynu)
- Ystad Gelli Aur
- Gerddi Aberglasne
- Dolau Cothi
- Amgueddfa a Gerddi Parc Howard
- Tŵr Paxton
- Amffitheatr Rufeinig Moridunum
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

## Cynefinoedd â Blaenoriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o fathau o gynefinoedd y mae'n ystyried sydd o bwys allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad - sef Cynefinoedd â Blaenoriaeth neu gynefinoedd Adran 7. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r cynefinoedd hyn.

Mae llawer o'r cynefinoedd â blaenoriaeth hyn yn Sir Gaerfyrddin – mae rhai yn gyffredin ac eraill yn brinnach. Mae nifer o sefydliadau yn gweithio yn y sir i'w cynnal a'u gwella. Er mwyn iddynt ffynnu, mae angen i sefydliadau ac unigolion gydweithio mewn partneriaeth - gan gynnwys tirfeddianwyr, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau cadwraeth bywyd gwyllt, Awdurdodau Lleol a diwydiant.

O dros 15,500 o ardaloedd cynefin unigol, dangosir y Cynefinoedd â Blaenoriaeth a ganfuwyd yn y sir a'u hardal gyfun fras yn y tabl isod:

| Math o Gynefin â Blaenoriaeth | Arwynebedd (Hectar) |
|---|---|
| Cyforgors | 246 |
| Cors Bori ar Arfordir a Gorlifdir | 8000 |
| Allfrigiad Creigiog Mewndirol a Chynefinoedd Sgri | 12 |
| Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir | 6 |
| Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir | 2055 |
| Ffeniau a Chorsleoedd yr Iseldir | 444 |
| Rhostir yr Iseldir | 436 |
| Dolydd yr Iseldir | 166 |
| Clogwyn a Llethr Morol | 58 |
| Cynefinoedd Brith Agored ar Dir a Ddatblygwyd yn Flaenorol | 513 |
| Glaswellt y Gweunydd a Phorfeydd Brwyn | 6917 |
| Morfa heli | 1610 |
| Tir Gwlyb, Ffeniau a Mignenni'r Ucheldir | 320 |
| Rhostir yr Ucheldir | 3080 |
| Coed Pori a Thir Parc | 289 |

Sylwer, mae'r rhain yn cael eu cymryd o arolwg cynefin Cam 1 ledled y wlad a gyhoeddwyd gyntaf ym 1990, ac, o ystyried ei oedran, rhaid ystyried bod y rhain yn amcanestyniadau.

Wedi'i lunio fel rhan o Gynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin 2020-2030, gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am Gynefinoedd â Blaenoriaeth yma:

- Safleoedd Tir Llwyd, Gerddi a Lleoedd Agored Trefol
- Cynefinoedd Arfordirol
- Cynefinoedd Ffermdir
- Cynefinoedd Dŵr Croyw
- Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir
- Cynefinoedd Morol
- Ucheldiroedd
- Gwlyptiroedd
- Coetiroedd

### Coetiroedd

Mae Sir Gaerfyrddin yn adnabyddus am ei choetiroedd helaeth gan gynnwys Brechfa, Caio a Phentywyn, gan ddarparu cynefinoedd ar gyfer ystod o blanhigion a bywyd gwyllt, yn ogystal â nwyddau cyhoeddus megis aer glân. Mae coedwigaeth hefyd yn darparu cyfleoedd gwaith ac adnoddau pren, gan roi hwb i'r economi leol. Yn ogystal, mae coed stryd sy'n cyfrannu at orchudd canopi trefol yn cynnig nifer o fanteision i'n hamgylchedd adeiledig gan gynnwys estheteg a llesiant, rheoli dŵr storm, a gwelliannau ansawdd aer. Yn ôl Rhestr Coedwigoedd Genedlaethol 2020, mae tua 18% o arwynebedd tir yn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) o dan ryw fath o reoli coetiroedd.

# Atodiad D: Teipoleg a Swyddogaeth

| Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas (Teipoleg) | Swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth Esthetig | Storio Carbon | Diogelu'r Arfordir | Llecynnau Cymunedol | Cyflogaeth | Lliniaru Llifogydd | Chynhyrchu Bwyd | Meithrin Cysylltiad â Natur | Cynefin i Fywyd Gwyllt | Treftadaeth a Diwylliant | Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | Adfer Llygrydd | Darparu Cysgod | Hamdden | Cefnogi Pryfed Peillio | Coridor Bywyd gwyllt |
| Llwybrau Teithio Llesol | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | |
| Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mannau Gwyrdd ar gyfer Amwynderau | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Corsydd (gan gynnwys Mawndiroedd) | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| Mynwentydd | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tir Comin | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Safleoedd Daearegol Dynodedig | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| Safleoedd Natur Dynodedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ffeniau a Mignenni | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Gorlifdiroedd Pori | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Toeau Gwyrdd | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Waliau Gwyrdd | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Rhostiroedd | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwrychoedd | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Glaswelltir Corsiog | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Tir Agored | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Parciau a Gerddi | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mannau Chwarae | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gerddi Preifat | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | |
| Morfeydd | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Twyni Tywod | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Merddwr | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| Coed Stryd Trefol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Gwlyptiroedd | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Coetir | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Atodiad E: Pecyn Cymorth Cyfleoedd

Mae'r Atodiad hwn yn archwilio ffyrdd o gryfhau Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin wrth fynd i'r afael â heriau lleol i bobl, i leoedd ac i fyd natur. Mae'r ymyriadau blaenoriaeth hynny a drafodir yma yn canolbwyntio ar:

- Creu Mannau Chwarae
- Gwella Gorchudd Coed
- Sefydlu Mannau Gwyrdd ar gyfer Safleoedd Hanesyddol
- Archwilio Adrodd Straeon Amgylcheddol
- Dod o hyd i Fannau ar gyfer Tyfu Cymunedol
- Gwyrddu'r Mannau lle mae Pobl yn Byw, yn Gweithio ac yn Ymweld â Nhw
- Hyrwyddo Draenio Cynaliadwy (SDCau)
- Diogelu a Chysylltu Mannau Arfordirol
- Darparu Llwybrau Gwyrdd ar gyfer Teithio Llesol
- Adfer Coridorau Glas
- Ailystyried Swyddogaethau Parciau a Llecynnau Glas



Ar gyfer pob un o'r ymyriadau a drafodwyd, darparwyd gwybodaeth am y canlynol:

- Trosolwg cryno o'r cyfle
- Pam mae'n bwysig yng nghyd-destun rhai o'r heriau a wynebir yn Sir Gaerfyrddin
- Mecanweithiau posibl i gefnogi'r gwaith cyflawni
- Ystyriaethau allweddol y mae eu hangen yn ystod y gwaith cyflawni
- Costau dangosol ar gyfer nifer o ymyriadau penodol
- Astudiaethau achos nodedig a rhannau pwysig o ganllawiau

## Datblygu Costau Dangosol

Mae amcangyfrifon cost lefel uchel wedi'u darparu ar gyfer pob un o'r ymyriadau Seilwaith Gwyrdd a Glas. Cafodd y rhain eu cyfrifo drwy ddefnyddio cyfraddau cydnabyddedig y diwydiant neu eu llywio gan enghreifftiau o astudiaethau achos o waith tebyg. Mae'n bwysig cydnabod bod y rhain yn ddangosol o ran eu natur, gyda rhai o'r rhain yn cael eu cyflwyno yn yr ystod "isel i uchel". Yn ogystal, wrth iddynt ganolbwyntio ar gostau cyfalaf a chynnal a chadw, nid oes unrhyw lwfans wedi'i wneud ar gyfer caffael tir.

Er bod yr holl gostau wedi'u diwygio hyd at fis Mehefin 2024 gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, dylid ystyried pwysau chwyddiant yn y dyfodol wrth ddibynnu ar y wybodaeth hon i gefnogi costau unrhyw brosiect yn y dyfodol. Nid yw'r cyfraddau hyn yn cymryd lle costau manwl yn seiliedig ar ddatblygu dyluniad cynigion o ran y costau dangosol, a bwriedir eu defnyddio fel canllaw ar gyfer cwmpasu prosiectau. Gall rhai prosiectau gael budd o ymgymryd ag astudiaethau dichonoldeb i lywio costau'n well ar gyfer ceisiadau cyllid posibl.

Darperir costau fel cyfraddau unedau a gellir eu defnyddio i ddeall y gwahaniaeth o ran costau cymharol rhwng ymyriadau penodol ac ardaloedd. Argymhellir ychwanegu canran o lwfansau costau cyfalaf prosiect i dalu'r costau canlynol:

- Ffioedd proffesiynol: oddeutu: 10-15%
- Rhagarweiniol: oddeutu: 7.5 - 15%
- Wrth gefn: oddeutu: 5-10%
- Cynnal a chadw (os nad yw'n cael ei ddarparu): oddeutu: 10% y flwyddyn

Mae nifer o ffactorau a allai effeithio ar gostau gwirioneddol gan gynnwys cyflwr y tir, cyfyngiadau o ran mynediad, a chyfyngiadau sy'n ymwneud â threftadaeth, yr amgylchedd, a/neu ecoleg, ymhlith eraill. Nid yw costau prynu tir wedi cael eu hystyried chwaith. Gall hefyd fod angen lwfans ar gyfer cronfa ad-dalu wrth ddarparu rhai nodweddion megis arwyneb artiffisial, ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer ffactorau gan gynnwys traul a breuo cyffredinol. Dylai'r swm a neilltuwyd yn flynyddol fod yn unol ag argymhellion y diwydiant neu gael ei amcangyfrif trwy ragweld y gost amnewid yn y dyfodol.

## Creu Mannau Chwarae

Mae chwarae yn rhan annatod o ddatblygiad corfforol a meddyliol iach. Mae'n cynnig cyfle i blant archwilio'u hamgylchedd a'u byd ehangach. Gall llawer o asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i sefydlu amgylchedd sy'n ffafriol o ran chwarae, creadigrwydd, a meithrin perthynas ag eraill, a hynny i bob oed. Mae'n bwysig cydnabod y dylai chwarae ddigwydd ym mhobman, ac na ddylid ei neilltuo'n unig ar gyfer darpariaethau chwarae ffurfiol. Dylid rhoi ystyriaeth i fannau ar gyfer chwarae yn ystod cyfnod cynnar y gwaith cynllunio ac ymdrechion i adfywio, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig lle mae diffyg darpariaethau chwarae, ochr yn ochr â chanolfannau trefol. Ffyrdd allweddol o wneud hyn yw canolbwyntio ar sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd yn cynnwys darpariaethau chwarae digonol; yn annog pobl i gerdded a beicio, yn enwedig i leoedd addysg; ochr yn ochr â chynnal a chadw ac adfywio darpariaethau presennol yn gynaliadwy.



### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Mae helpu plant i fyw bywydau iach yn amcan allweddol yng Nghynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ac mae'n ymwneud â lleihau anghydraddoldebau iechyd, fel y blaenoriaethwyd yn ein Datganiad Ardal.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod chwarae'n rhan hanfodol o fywydau plant a phobl ifanc, a bod angen i blant fod yn gallu dewis yr hyn maent am ei wneud, sut maent am ei wneud a pham maent am ei wneud. Mae hefyd yn credu mai'r ffordd orau o ddarparu cyfleoedd chwarae priodol yw trwy ddatblygu ystod mor eang â phosibl o ddarpariaeth chwarae gynhwysol.

Mae'r rhwystrau o ran darparu cyfleoedd chwarae a grybwyllir mewn ymgynghoriad â Chynghorau Tref a Chymuned yn cynnwys diffyg lle, cost a heriau cynnal a chadw.

Mae Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Gaerfyrddin yn rhoi arweiniad manwl ynghylch sut a ble i ddarparu cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel fel rhan annatod o rwydwaith ehangach Seilwaith Gwyrdd a Glas.

## Dulliau Darparu Posibl

- Darpariaeth Mannau Agored Cyhoeddus wedi'i hintegreiddio o fewn datblygiad newydd. Bydd angen i gynigion ar gyfer pob datblygiad preswyl newydd o 5 uned neu ragor ddarparu hyn yn unol â Safonau Mannau Agored Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli'r rhan fwyaf o fannau chwarae awyr agored yn Sir Gaerfyrddin. Cyllid posibl drwy gyfraniadau datblygwyr os ydynt yn bodloni'r galw a grëwyd gan ddatblygiad cyfagos.
- Mentrau dan arweiniad y gymuned, ar lawr gwlad. Y trydydd sector, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid asedau cyhoeddus segur. Gall y rhain gaffael tir neu adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned.
- Integreiddio chwarae i raglenni adfywio canol trefi gan gynnwys Trawsnewid Trefi.
- Mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn enwedig wrth integreiddio chwarae â natur. Gellir dod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys grantiau cymunedol penodol yma.

## Ystyriaethau Cyflawni

Bydd cyfathrebu â chymunedau lleol yn bwysig er mwyn gallu darparu mannau chwarae sy'n defnyddio dull mentro yn ofalus, ac sy'n cael eu hintegreiddio â'r llecynnau cyhoeddus ehangach, y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, a darpariaethau teithio llesol. Efallai y bydd angen i hyn fynd i'r afael â rhagdybiaethau posibl ynghylch ble y dylai chwarae ddigwydd, ac unrhyw gysylltiadau rhwng mannau chwarae ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cydlunio'n ffordd bwerus o oresgyn heriau o'r fath a bydd yn helpu i gynyddu'r tebygolrwydd o'r mannau'n cael eu derbyn gan y gymuned.

Mae hefyd yn bwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i feddwl yn wahanol am yr hyn sy'n gwneud man chwarae o ansawdd a lle y dylai chwarae ddigwydd. Bydd hyn yn hwyluso dull newydd o ddarparu chwarae o ansawdd uwch.

Trafodir pethau eraill i'w hystyried wrth sefydlu man cymunedol gan gynnwys llywodraethu, dylunio, cynnal a chadw, a'r angen i gael caniatâd cynllunio yn ein Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas o dan Arweiniad y Gymuned.

## Costau Dangosol

Mae mannau chwarae ffurfiol yn amrywio'n sylweddol o ran maint, natur a dyluniad. Mae'r tablau isod yn nodi costau dangosol manwl ar gyfer darparu mannau chwarae ar ystod o raddfeydd.

| Chwarae ar garreg y drws 100m2 | Uned | Cost | Cyfanswm Llinell |
|---|---|---|---|
| Cyfarpar symudol 3 eitem | eitem | £2,000 | £6,000 |
| Cyfarpar sefydlog 2 eitem | eitem | £3,500 | £7,000 |
| Nodweddion chwarae naturiol | eitem | £5,000 | £5,000 |
| Arwynebau | m2 | £100 | £10,000 |
| Ffin | metr llinol | £130 | £5,200 |
| Gatiau | eitem | £800 | £1,600 |
| Mannua eistedd | eitem | £1,000 | £1,000 |
| Bin | eitem | £800 | £800 |
| Lwfans ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u plannau a thirlunio | eitem | £5,000 | £5,000 |
| | | Is-gyfanswm | £41,600 |
| | | Ffioedd proffesiynol, archwiliad, cymeradwyaeth (15%) | £6,240 |
| | | Cyfanswm | £47,840 |
| | | Cynnal a chadw fesul blwyddyn (10% cost cyfalaf) | £4,784 |
| | | Archwiliad gan beirianwyr bob blwyddyn | £150 |
| | | Casglu sbwriel fesul blwyddyn | £150 |
| | | Costau cynnal a chadw dros 20 mlynedd | £101,680 |

| Lleol 400m$^2$ | Uned | Cost | Cyfanswm Llinell |
|---|---|---|---|
| Cyfarpar symudol 2 eitem | eitem | £2,000.00 | £4,000.00 |
| cyfarpar symudol mawr 3 eitem | eitem | £4,000.00 | £12,000.00 |
| Cyfarpar sefydlog 2 eitem | eitem | £3,500.00 | £7,000.00 |
| Nodweddion chwarae naturiol | eitem | £5,000.00 | £5,000.00 |
| Arwynebau | m2 | £100.00 | £40,000.00 |
| Ffin | Metr llinol | £130.00 | £20,800.00 |
| Gatiau | eitem | £800.00 | £2,400.00 |
| Mannau eistedd | eitem | £1,000.00 | 2,000 |
| Rheseli beiciau | eitem | £1,500.00 | 1,500 |
| Bin | eitem | £800.00 | £1,600.00 |
| Lwfans ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u plannu a thirlunio | eitem | £10,000.00 | £10,000.00 |
| | | Is-gyfanswm | £106,300.00 |
| | | Ffioedd proffesiynol, archwiliad, cymeradwyaeth (15%) | £15,945.00 |
| | | Cyfanswm | £122,245.00 |
| | | cynnal a chadw fesul blwyddyn (10% cost cyfalaf) | £12,224.50 |
| | | Archwiliad gan beirianwyr bob blwyddyn | £150.00 |
| | | Casglu sbwriel fesul blwyddyn | £600.00 |
| | | Costau cynnal a chadw dros 20 mlynedd | £259,490.00 |

| Neighbourhood 1000m$^2$ | Uned | Cost | Cyfanswm Llinell |
|---|---|---|---|
| Cyfarpar symudol 6 eitem | eitem | £2,000.00 | £12,000.00 |
| cyfarpar symudol mawr 4 eitem | eitem | £4,000.00 | £16,000.00 |
| Cyfarpar sefydlog mawr 3 eitem | eitem | £3,500.00 | £10,500.00 |
| Nodweddion chwarae naturiol | eitem | £15,000.00 | £15,000.00 |
| Arwynebau | m2 | £100.00 | £100,000.00 |
| Ffin | Metr llinol | £130.00 | £32,500.00 |
| Gatiau | eitem | £800.00 | £2,400.00 |
| Mannau eistedd | eitem | £1,000.00 | 5,000 |
| Rheseli beiciau | eitem | £1,500.00 | 4,500 |
| Bin | eitem | £800.00 | £2,400.00 |
| Lwfans ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u plannu a thirlunio | eitem | £15,000.00 | £15,000.00 |
| | | Is-gyfanswm | £215,300.00 |
| | | Ffioedd profesiynol archwiliad, cymeradwyaeth (15%) | £32,295.00 |
| | | Cyfanswm | £247,595.00 |
| | | Cynnal a chadw fesul blwyddyn (10% cost cyfalaf) | £24,759.50 |
| | | Archwiliad gan beirianwyr bob blwyddyn | £150.00 |
| | | Casglu sbwirel fesul blwyddyn | £1,500.00 |
| | | Costau cynnal a chadw dros 20 mlynedd | £528,190.00 |

* = Mae gwaredu'r nodweddion hyn yn rhoi'r ystodau a gyflwynir. Mewn gwirionedd, bydd hyn yn cael ei bennu gan gyfyngiadau'r safle, y peryglon posibl, a diwallu anghenion rhanddeiliaid.

### Astudiaeth Achos: Man Chwarae Naturiol, Whitestone



Nod y prosiect hwn, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2023 , oedd disodli cyfarpar chwarae pren sy'n mynd yn hŷn â gofod archwilio naturiol newydd, gan feithrin ymgysylltiad â natur a darparu lle i blant chwarae ac archwilio. Roedd yn cynnwys creu twmpath troellog gyda chaer y mae modd ei chyrraedd trwy lwybr troellog, cerrig camu, boncyffion, twneli, cylchoedd boncyffion cyfrinachol a boncyffion cydbwyso i annog archwilio a chwarae. Roedd gosod meinciau picnic newydd yn darparu rhagor o gyfleusterau i ymwelwyr.

### Canllawiau

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer integreiddio Mannau Agored Cyhoeddus o fewn Datblygiad Newydd yn sefydlu meini prawf dylunio ar gyfer darparu mannau chwarae o safon. Er mai diben hyn yw cynorthwyo datblygwyr wrth gynllunio cynigion datblygu, gellir ei ddefnyddio'n ehangach hefyd o fewn mentrau dan arweiniad y gymuned a/neu fentrau'r cyngor.

Mae'r Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas o dan Arweiniad y Gymuned yn rhoi trosolwg o'r ystyriaethau allweddol y mae eu hangen i gyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel leol.

Mae Chwarae Cymru yn rhoi arweiniad cynhwysfawr ynghylch chwarae, gan gynnwys:

- Chwarae a risg
- Chwarae a chynhwysiant
- Chwarae a chwrdd yn yr awyr agored

## Gwella Gorchudd Coed

Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i Goedwig Genedlaethol i Gymru sy'n ceisio creu ardaloedd o goetir hygyrch newydd, yn ogystal ag adfer a chynnal rhai sy'n bodoli eisoes. Bwriad hyn yw helpu i ddiogelu natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn ogystal â chefnogi iechyd a llesiant cymunedau. Fodd bynnag, mae nodi lleoliadau priodol i ehangu gorchudd coed a choetir yn hanfodol er mwyn osgoi gwrthdaro posibl o ran defnydd tir fel colli cynefinoedd pwysig neu dir amaethyddol. Mae sicrhau bod y coetiroedd presennol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yr un mor bwysig.

Yn ogystal â storio carbon, mae coetiroedd a gwrychoedd yn darparu cynefinoedd hanfodol i wella bioamrywiaeth, gan ddarparu bwyd a lloches. Mae ehangu'r tir maent yn ei orchuddio a chynyddu amrywiaeth rhywogaethau ac amrywiaeth strwythurol yn gallu helpu i gysylltu cynefinoedd â'i gilydd – gan ffurfio coridorau bywyd gwyllt. Yn y modd hwn, gallant chwarae rhan bwysig wrth adfer rhwydweithiau cynefinoedd darniog.

Yn aml, y coetir gorau ar gyfer bioamrywiaeth yw un gydag ychydig o bopeth – coed o bob oed o eginblanhigion i hen goed, digon o rywogaethau gwahanol, ardaloedd llaith, ardaloedd tywyll, ardaloedd heulog, glaswelltau, mieri, blodau'r gwanwyn, bryncynnau sych, bryncynnau caregog a bryncynnau mwsoglyd.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Coetiroedd a choedwigoedd yw tua un rhan o saith o dir Sir Gaerfyrddin. Maent yn darparu tirweddau hardd a lleoedd gwerthfawr ar gyfer hamdden ac addysg yn ogystal â chartref, bwyd a lloches ar gyfer ystod eang o rywogaethau pwysig. Gall cynyddu gorchudd coed helpu i ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur pan gaiff ei wneud mewn modd ystyriol.

Ond mae gostyngiad sylweddol wedi bod mewn coetiroedd a gwrychoedd ar draws y DU - mae bron i hanner ohonynt wedi eu colli yn y DU dros y 40 mlynedd diwethaf. Mae sbardunau ar gyfer hyn yn cynnwys arferion rheoli anghynaliadwy, lledaeniad clefydau fel clefyd coed ynn, a newid defnydd tir ar gyfer datblygu.

## Dulliau Darparu Posibl

- Gall cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli nifer o barciau a mannau gwyrdd ddarparu cyfleoedd i wella gorchudd coed drwy blannu coed sydd o fudd i bobl a natur.
- Efallai y bydd gan fentrau ar lawr gwlad, mentrau dan arweiniad y gymuned, sefydliadau'r trydydd sector, a grwpiau cymunedol ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau plannu coed ar dir sy'n eiddo cyhoeddus (gyda chaniatâd priodol). Efallai y bydd ganddynt ddiddordeb hefyd mewn caffael tir sy'n eiddo cyhoeddus i ddatblygu coetir trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned. Mae'r Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas o dan Arweiniad y Gymuned yn trafod y cyfle hwn ymhellach.
- Integreiddio coed stryd i raglenni adfywio canol trefi gan gynnwys Trawsnewid Trefi.
- Nod mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw adfer a gwella tir cyhoeddus er budd pobl a natur. Maent yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hwyluso dulliau dan arweiniad y gymuned gan ymgysylltu â'r gymuned gan gynnwys plannu coed a chynnal a chadw coetiroedd.

## Ystyriaethau Cyflawni

Wrth ystyried gwella gorchudd coed a phlannu coed newydd mewn ardal a ddyrannwyd, mae'n bwysig meddwl pa fath o goed sydd fwyaf addas i'r amgylchedd. Gellir defnyddio Cynllun Adfer Natur Lleol Sir Gaerfyrddin i nodi rhywogaethau ffafriol ar gyfer yr ardal i fynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth yn lleol. Mae gan Cadwch Gymru'n Daclus a Phecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas o dan Arweiniad y Gymuned hefyd wybodaeth bellach am blannu coed a dewis y rhywogaethau cywir.



## Astudiaeth Achos: Hen Faes Chwaraeon Ysgol Tre-gib

Mae hen faes chwaraeon Ysgol Tre-gib yn cwmpasu 5.5 hectar o laswelltir amwynder, gan gynnwys nifer o ardaloedd nad oeddynt yn cael eu defnyddio ond a oedd yn cael eu cynnal a chadw. Roedd ceffyl yn pori ar ardal gyfagos o dir fferm sy'n eiddo i'r cyngor ond roedd y tir mewn cyflwr gwael. Roedd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cefnogi plannu 16 o goed parcdir a 300 o goed coetir bach fel llain gysgodi, matiau *mulch* i arbed gorfod defnyddio plaladdwyr, darpariaeth hygyrch drwy'r safle a phont i gysylltu â safle Tre-gib Coed Cadw.






## Costau Dangosol

| Coetiroedd a gorchudd coed | Cost |
|---|---|
| Ymyl coetiroedd a phlannu isdyfiant, pyst a gardiau coed, deunydd lleithgadw chwynnu unwaith, dyfrhau (planhigion bach a chanolig) | £12 fesul $m^2$ |
| Coeden a'i gwreiddiau'n foel, un postyn, paratoi twll coeden $1m^3$ | £350 |
| Coeden led-aeddfed mewn ardal dirwedd feddal (25-30cm o gwmpas) - postyn pren dwbl, gwelliannau pridd | £800 |
| Coeden led-aeddfed mewn ardal dirwedd feddal (25-30cm o gwmpas) - rhaffau cynnal tanddaearol, gwelliannau pridd | £1,100 |

## Sefydlu Mannau Gwyrdd ar gyfer Safleoedd Hanesyddol

Gall hyrwyddo dull mwy cyfannol gan gymryd arweiniad oddi wrth y dirwedd o ran amgylchedd hanesyddol y sir helpu i gynnal safbwyntiau pwysig a chreu amgylchfyd cyhoeddus deniadol. Lle bo'n briodol, gall cynnal coed a llwyni, a chyflwyno planhigion priodol, helpu i wella ymddangosiad asedau treftadaeth a darparu cynefin ar gyfer bioamrywiaeth ar yr un pryd. Gall mannau gwyrdd o ansawdd mewn llawer o safleoedd hanesyddol hefyd roi cyfle i fyfyrio'n dawel, cael egwyl cinio, neu chwarae.

Mae cysylltiadau gwyrdd ag asedau treftadaeth yn annog trigolion lleol a thwristiaid i ymweld â'r amgylchedd hanesyddol, dysgu amdano a'i fwynhau. Fel rhwydwaith ehangach, gall llwybrau treftadaeth fel Llwybr Treftadaeth Tref Sanclêr neu Lwybr Treftadaeth Pont-iets annog ymweliadau hirach sy'n cynnwys yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig.





### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Mae twristiaeth yn bwysig iawn i drefi arfordirol a gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Mae ganddi'r potensial i ddod â buddsoddiad economaidd a phrosiectau adfywio. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd amgylchedd hanesyddol cyfoethog y sir a diwylliant a threftadaeth unigryw.

Gall dull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas o ran treftadaeth hefyd helpu i adrodd stori'r dirwedd naturiol ehangach, yn hytrach na chael ffocws rhy gyfyng ar asedau unigol. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n gwella lleoliad asedau hanesyddol helpu i ddenu ymwelwyr, gan eu denu i drefi cyfagos a busnesau lleol. Gall hyn ychwanegu gwerth at ein heconomi leol a helpu i adfywio trefi marchnad fel rhan o'r ymdrechion adfer ar ôl Covid. Cefnogir hyn gan yr ymgynghoriad 8 Tref a ganfu ddiddordeb sylweddol mewn dull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas o ran adfywio a hyrwyddo twristiaeth.

### Dulliau Darparu Posibl

- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned a allai fod â diddordeb mewn rheoli a chynnal y tirweddau o amgylch safleoedd hanesyddol lleol.
- Hefyd efallai y bydd gan fentrau ar lawr gwlad a rhai dan arweiniad y gymuned, sefydliadau'r trydydd sector, a grwpiau cymunedol ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn plannu a chynnal a chadw mannau o'r fath.
- Nod mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw adfer a gwella tir cyhoeddus er budd pobl a natur. Efallai y byddant yn gallu cefnogi drwy roi cyngor neu ariannu gweithgareddau o'r fath sy'n ymgysylltu â'r gymuned leol.



### Ystyriaethau Cyflawni

Mae cynnal a chadw'n ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu mannau gwyrdd, a nododd ymgyngoreion y prosiect 8 Tref fod cynnal a chadw'r mannau gwyrdd presennol wedi bod yn her oherwydd cyfyngiadau ariannol / cyllid. Wrth ddarparu mannau gwyrdd newydd, bydd angen ystyried y gwaith cynnal a chadw hirdymor a'r goblygiadau ariannol.

### Costau Dangosol

| Soft landscape | Cost |
|---|---|
| Ymyl coetroedd a phlannau isdyfiant | £12 per $m^2$ |
| Plannau gwrychoedd | £40 per lin m |
| SDCau (gweler costau SDCau) | (gweler tudalen #) |
| Dolydd blodau gwyllt | £5 per $m^2$ |

## Astudiaeth achos: Parc yr Esgob - Gardd Furiog Parc yr Esgob, Abergwili

Nod y prosiect yw adfer a datblygu un o ardaloedd hanesyddol allweddol Abergwili sydd ar ôl, sef yr ardd furiog. Ei fwriad oedd adfer yr ardd i gadw a gwarchod y nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi drwy:

- Adfer y pwll pilcota
- Ailadeiladu rhwydwaith o lwybrau
- Creu gofod amlswyddogaethol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau er budd y gymuned gan gynnwys cynhyrchu bwyd ac addysg.



## Archwilio Adrodd Straeon Amgylcheddol

Mae adrodd straeon amgylcheddol yn hanfodol oherwydd mae'n helpu i gyfleu negeseuon pwysig am yr amgylchedd, cynaliadwyedd a chadwraeth mewn ffordd ddiddorol a deniadol. Gall helpu pobl i ddeall materion amgylcheddol cymhleth, cysylltu â natur, a'u cymell i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau bob dydd. Mae hyn hefyd yn berthnasol o ran dehongli ac addysgu ynghylch safle hanesyddol sy'n rhan o 'ymdeimlad o le' tref.

Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio paneli deunydd esboniadol i helpu i ddeall asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas, prosesau naturiol, neu 'stori' ehangach y dirwedd gyfagos. Gall hefyd fod ar ffurf celf gyhoeddus. Gallai lleoliadau gynnwys ar hyd llwybr treftadaeth i wlyptiroedd, ar hyd llwybr arfordirol neu ar laswellt wrth ymyl y ffordd.

Mae paneli deunydd esboniadol da yn cael eu cynllunio yn ôl y cyd-destun. Er enghraifft, gall mwy o luniau a llai o destun fod yn briodol i blant.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i nodi llecynnau naturiol newydd a rhai presennol y gellir eu defnyddio i wella cysylltiadau â natur. Bydd y Cyngor yn hyrwyddo’r llecynnau hyn ac yn annog dealltwriaeth o bwysigrwydd natur a chariad tuag ato, sydd â chysylltiad cryf â diwylliant a hanes Sir Gâr.

Mae'n bwysig parhau â'r traddodiad o stiwardiaeth a chael cysylltiad â'r amgylchedd naturiol yn yr ardal leol. Mae'r byd naturiol wedi dylanwadu ar enwau ffermydd, tai a strydoedd yn Sir Gaerfyrddin e.e. Cwrt-y-Cadno (cadno), Cwmysgyfarnog (ysgyfarnog), Cilyblaidd (blaidd), Dôl-Haidd Isaf (dôl; haidd). Mae rhai o’r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn yn parhau i fod yn gyffredin, ond mae rhai eraill bellach yn brin neu wedi darfod yn yr ardal leol.

Mae cyfle hefyd i hyrwyddo a rhannu'r byd naturiol sy'n gwneud tirwedd Sir Gaerfyrddin mor unigryw.

Amlygodd ymchwil y fenter 8 Tref ddiddordeb sylweddol mewn defnyddio addysg ac ymwybyddiaeth amgylcheddol i wella stiwardiaeth a dealltwriaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur.

Teimlwyd y byddai gwell addysg o fudd i bobl ifanc yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol i gefnogi eu dealltwriaeth o ymdrechion amgylcheddol.

### Dulliau Darparu Posibl

- Mae cydweithredu â gwasanaethau addysg ac awyr agored yn ogystal â rhanddeiliaid y trydydd sector yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu i'r eithaf trwy sicrhau bod yr ymyrraeth yr un orau.
- Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ymrwymo i wella'r cysylltiad rhwng pobl a natur, ac efallai y byddant yn gallu darparu cymorth trwy roi cyngor neu gyllid ar gyfer gweithgareddau ac ymyriadau sy'n ymgysylltu â'r gymuned leol.

### Ystyriaethau Cyflawni

- Rhaid i ymdrechion ymgysylltu ystyried hygyrchedd a chynhwysiant, gan sicrhau bod ymyriadau'n briodol ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig.
- Bydd y costau hirdymor sy'n gysylltiedig ag arwyddion a phaneli deunydd esboniadol yn gysylltiedig yn bennaf â gosod rhai newydd oherwydd fandaliaeth a hindreuliad ac mae'n rhaid monitro hyn.
- Mae'n bwysig bod unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei diweddaru, felly os defnyddir codau QR neu ddolenni gwefan, mae'n hanfodol bod y llwyfannau cysylltiedig yn cael eu cynnal trwy gydol yr ymyrraeth.

### Costau Dangosol

| Eitem | Cost | Cynnal a Chadw | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Llwybr deunydd esboniadol (byrddau deunydd esboniadol ar hyd llwybr diffiniedig, gweithgynhyrchu, gosod). | £18,028 - £24037 ((yn dibynnu ar y maint a'r dulliau atal fandaliaeth) | Cost amnewid bywyd cyfan: gellir tybio bod cost cyfalaf o 10-15% y flwyddyn. | Ychydig iawn o waith cynnal a chadw ac eithrio monitro fandaliaeth a hindreulio. |
| Arwyddion cyfeirio. | £180 - £901 yr un | Cost amnewid bywyd cyfan: gellir tybio bod cost cyfalaf o 10-15% y flwyddyn. | Ychydig iawn o waith cynnal a chadw ac eithrio monitro fandaliaeth a hindreulio. |

## Astudiaeth achos: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Meinciau â blychau plannu

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi gosod nifer o feinciau â blychau plannu o amgylch Sir Gaerfyrddin sy'n integreiddio seddi a blodau gwyllt brodorol, nodweddion cynefinoedd ac arwyddion rhyngweithiol. Mae'r arwyddion addysgol yn dangos cod QR sy'n gysylltiedig â'r llwyfan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, lle gall y cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth am ymdrechion amgylcheddol sy'n cael eu gwneud o fewn y sir yn ogystal â chwblhau arolwg byr am eu profiad o natur i lywio gwaith yn well yn y dyfodol.



## Dod o hyd i Fannau ar gyfer Tyfu Cymunedol

Mae mannau tyfu cymunedol yn ffordd wych o greu mannau cymdeithasol lle gall cymdogaethau ddod at ei gilydd a thyfu bwyd cynaliadwy ac iach. Gall cynlluniau o'r fath fod ar sawl ffurf – o dyfu llysiau, coed sy'n tyfu ffrwythau, neu berlysiau sy'n denu pryfed peillio, mewn potiau, blychau plannu pren wedi'u codi, neu'n syth yn y ddaear.

Mae trawsnewid stribedi o dir segur ar gyrion parciau cyhoeddus, caeau chwarae ysgolion, mannau di-raen neu fannau eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol hefyd yn ffyrdd o ennyn balchder bro mewn ardal. Gall hyn greu ymdeimlad o berthyn ac ymgysylltiad ymhlith y gymuned. Fel arall, mae blychau plannu dros dro yn ffordd dda o ddechrau menter tyfu cymunedol, os nad oes lle parhaol ar gael ar unwaith mewn cymdogaeth.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Mae ehangu cyfleoedd i gael mynediad at fannau tyfu yn golygu ailasesu'r defnydd traddodiadol o ofod yn ein trefi a'n pentrefi a blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol awyr agored a hamdden, ochr yn ochr â meithrin cysylltiad â byd natur.

Mae gweithgareddau cymdeithasol sy'n ein cael ni allan ym myd natur bellach yn cael eu hargymell gan y gwasanaethau iechyd i wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl fel rhan o gynlluniau o'r enw 'rhagnodi cymdeithasol' neu 'ragnodi gwyrdd'. Mae rhagnodi cymdeithasol o ran mentrau awyr agored wedi cael eu treialu yn Llanelli ac mae'r canlyniadau'n edrych yn addawol. Maent yn awgrymu y byddai manteision i lesiant cymunedol pe bai cyfleoedd tyfu ar gael ar draws y sir.



## Dulliau Darparu Posibl

- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli'r rhan fwyaf o safleoedd rhandiroedd yn Sir Gaerfyrddin.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyllido posibl megis drwy gyfraniadau datblygwyr os ydynt yn bodloni'r galw a grëwyd gan ddatblygiad cyfagos. Gellir dod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys grantiau cymunedol penodol yma.
- Mentrau dan arweiniad y gymuned, ar lawr gwlad. Y trydydd sector, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid asedau cyhoeddus segur. Gall y rhain gaffael tir neu adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned.
- Gall Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gynnig cyngor a chefnogaeth ar gyfer mentrau, yn enwedig wrth integreiddio tyfu cymunedol ac addysg.



## Ystyriaethau Cyflawni

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau lleol yn hanfodol i fannau tyfu cymunedol llwyddiannus ac integredig sydd mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael ag angen, cefnogi'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, a chysylltu darpariaethau teithio llesol. Bydd cydlunio a chydweithio'n helpu i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o gefnogaeth ariannol gan gymunedau yn y tymor hir.

Trafodir pethau eraill i'w hystyried wrth sefydlu man cymunedol gan gynnwys llywodraethu, dylunio, cynnal a chadw, a'r angen i gael caniatâd cynllunio yn ein Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd a Glas o dan Arweiniad y Gymuned.

## Costau Dangosol

| Man Agored Cyhoeddus | Cost |
|---|---|
| Man gwyrdd hygyrch | £35 per $m^2$ |
| Man tyfu cymunedol (heb gynnwys unrhyw gyfleusterau ychwanegol fel storio) | £12 per $m^2$ |

## Astudiaeth Achos: Gardd Newid Hinsawdd

Mae Gardd Newid Hinsawdd yn gynllun sydd wedi bod ar waith ers dwy flynedd i ddatblygu mannau tyfu cynhyrchiol a chefnogi'r model 'o'r pridd i'r plât' mewn ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgolion wedi cael eu hyfforddi a'u cefnogi i sefydlu mannau tyfu cynhyrchiol yn eu tiroedd.





## Gwyrddu'r Mannau lle mae Pobl yn Byw, yn Gweithio ac yn Ymweld â Nhw

Mae 'gwyrddu' yn aml yn cyfeirio at wneud y mwyaf o'r nodweddion gwyrdd (neu las) yn yr amgylchedd adeiledig. Gall cymdogaethau a chanol trefi mwy gwyrdd helpu i greu amgylchedd iachach ar gyfer cymunedau lleol. Ond gall hefyd wella apêl weledol y stryd fawr, sydd yn ei dro yn denu buddsoddiad i fusnesau lleol. Gall nodweddion y Seilwaith Gwyrdd a Glas gynnwys:

- Plannu coed a llwyni ar hyd llwybrau allweddol i gysylltu llwybrau a strydoedd.
- Mannau gwyrdd o ansawdd, yn y mannau iawn (e.e. gwaredu mannau parcio a rhoi parciau poced dan arweiniad y gymuned yno yn eu lle).
- Waliau byw ac elfennau gwyrdd eraill i ôl-osod adeiladau.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Gall creu trefi iachach a deniadol y mae modd cerdded yno hyrwyddo buddsoddiad a gwella ymdeimlad o le. Mae'r cyhoeddiad Adeiladu Lleoedd Gwell (2020) gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar greu lleoedd, yn nodi y bydd ailbwrpasu mannau y tu allan yng nghanol trefi yn hanfodol ar gyfer adfywio canol trefi Cymru. Yn enwedig wrth iddynt gael trafferth gydag effeithiau Covid-19. Mae'n awgrymu y bydd y galw am fanwerthu traddodiadol yn isel ac, er mwyn dod â bywyd yn ôl i drefi, rhaid cael defnydd creadigol o fannau agored. Gallai hyn gynnwys creu mannau agored newydd ar leiniau gwag a meysydd parcio, neu ddefnyddio palmentydd, priffyrdd a mannau gwyrdd trefol i lunio mannau diddorol a synhwyraidd. Bydd y nodweddion hyn yn helpu busnesau i weithredu, i greu cyrchfannau cerdded deniadol, i drawsnewid ansawdd aer ac i hybu llesiant corfforol a meddyliol – a amlygir fel her allweddol yn y sir.

## Dulliau Darparu Posibl

- Darpariaeth Mannau Agored Cyhoeddus wedi'i hintegreiddio o fewn datblygiad newydd. Bydd angen i gynigion ar gyfer pob datblygiad eiddo preswyl newydd sy'n cynnwys 5 uned neu ragor ddarparu hyn yn unol â Safonau Mannau Agored Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli nifer o barciau a mannau gwyrdd yn Sir Gaerfyrddin. Cyllid posibl drwy gyfraniadau datblygwyr os ydynt yn bodloni'r galw a grëwyd gan ddatblygiad cyfagos.
- Mentrau ar lawr gwlad, mentrau dan arweiniad y gymuned, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid asedau cyhoeddus segur. Gall y rhain gaffael tir neu adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned.
- Integreiddio mannau gwyrdd i raglenni adfywio canol trefi gan gynnwys Trawsnewid Trefi.
- Mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sy'n gweithio i wella'r cysylltiad rhwng pobl a natur. Gellir dod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys grantiau cymunedol penodol yma.

## Ystyriaethau Cyflawni

Mae cynllunio'n allweddol wrth ddatblygu ymyriadau gwyrddu, ac mae'n bwysig sicrhau bod y math cywir o ymyrraeth yn cael ei ddarparu ar gyfer y gymuned a'r amgylchedd. Felly, mae'n bwysig ymgynghori â nifer o randdeiliaid gan gynnwys y cyhoedd i sicrhau y bydd yr ymyrraeth yn cael y budd mwyaf.

## Cost Dangosol

| Coed yn Nhirwedd Galed | Cost |
|---|---|
| Coeden mewn man sydd eisoes wedi'i balmantu - y pridd presennol, coeden safonol 30-35cm o gwmpas | £1,425 |
| Twll coeden gyda chelloedd cynnal llwyth cellog, rhaffau tanddaearol, system ddyfrhau, pridd presennol wedi'i gyfoethogi, cwmpas 30-35cm, cyfyngiad pwysau traffig o 7.5 tunnell | £3,425 |
| Twll coeden gyda chelloedd cynnal llwyth cellog, rhaffau tanddaearol, system ddyfrhau, pridd presennol wedi'i gyfoethogi, cwmpas 30-35cm, cyfyngiad pwysau traffig o 40 tunnell | £13,500 |
| Tynnu'r pridd presennol a rhoi uwchbridd a fewnforiwyd os oes angen (coeden 30-35cm) | £325 per $m^2$ |
| Pridd coed trefol mewn tyllau coed unigol | £175 per $m^3$ |

## Astudiaeth Achos: Canolfan Gofal Dydd Ffordd y Faenor

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi gweithio gyda staff a chleientiaid yn y ganolfan ddydd i blannu perllan coed cymysg a gwrychoedd brodorol ynghyd â meinciau â blychau plannu blodau gwyllt/perlysiau a matiau glaswellt rwber ar gyfer darparu mynediad i gadeiriau olwyn. Er bod y safle wedi'i ffensio, mae hefyd ar gael i'r cyhoedd fel man cymunedol.



| Toeau Gwyrdd | Cost |
|---|---|
| To gwyrdd helaeth | |
| System to fflat, dyfnder o 90mm, mat sedum neu blygiau. | £335 $m^2$ |
| To gwyrdd bioamrywiol | |
| System to fflat , dyfnder o 150mm, wedi'l blannu â blodau gwyllt. | £285 $m^2$ |
| To gwyrdd dwys | |
| Hyd at 400mm cyfrwng tyfu'n dwfn, meinciau, biniau, fflagiau palmant ar bedestals, tyweirch, llwyni, rhai coed. Nid yw pilenni dal dŵr, seilwaith draenio ychwanegol a chyfyngiad wedi'u cynnwys. | |
| Manyleb is (yn dibynnu ar ddyfnder, plannu a lefel y nodweddion mynediad cyhoeddus) | £235 $m^2$ |
| Manyleb uwch (yn dibynnu ar ddyfnder, plannu a lefel y nodweddion mynediad cyhoeddus) | £600 $m^2$ |

## Hyrwyddo Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Mae codi palmentydd yn golygu cael gwared ar rannau o balmentydd caled, fel concrit a tharmac. Yna caiff arwyneb hydraidd newydd ei osod fel graean neu bridd. Mae gerddi glaw yn ddull ar gyfer arafu a hidlo dŵr glaw o amgylch ein cartrefi, mannau cymunedol, ysgolion, meysydd parcio ac ati. Ar ôl ei gasglu, mae'r dŵr yn cael ei storio a'i ryddhau'n araf i gyrsiau dŵr neu garthffosydd – naill ai drwy'r ddaear, trwy anwedd-drydarthu o blanhigion, neu ddulliau storio eraill. Cyfeirir at y mathau hyn o nodweddion yn aml fel Draenio Cynaliadwy (SDCau).

Mae deddfwriaeth Cymru ers 2019 yn mynnu bod pob datblygiad newydd yn cynnwys nodweddion SDCau. Mae'n bwysig bod y SDCau hyn yn cyflawni rolau lluosog y tu hwnt i liniaru perygl llifogydd (gan gynnwys bioamrywiaeth) ac maent hefd yn cael eu hôl-osod mewn mannau sy'n bodoli eisoes.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Gall systemau draenio mewn trefi hŷn ei chael hi'n anodd rheoli dŵr ffo wyneb yn gynaliadwy, yn enwedig wrth i'r boblogaeth breswyl, y ffyrdd a'r arwynebau caled gynyddu.

Mae arwynebau caled fel toeau, tarmac a slabiau pafin yn rhwystro dŵr rhag hidlo i'r pridd, gan gyfeirio mwy o ddŵr i'r system garthffosydd.

Yn aml mae carthffosydd cyfunol yn ardaloedd hŷn trefi Sir Gaerfyrddin - lle mae cyfuniad o lawiad, draenio dŵr brwnt, ac weithiau nentydd, yn llifo o fewn yr un pibellau. Mae hyn yn gwthio llawer mwy o ddŵr drwy'r gwaith trin carthffosiaeth a gall arwain atynt yn ei chael hi'n anodd ymdopi mewn cyfnodau o lawiad uchel, gan arwain at lygredd afonydd a'r môr.

Mae'r rhan fwyaf o fywyd gwyllt hefyd yn ei chael hi'n anodd creu cartref ar yr arwynebau caled hyn, felly gall gardd law wella cysylltiadau bywyd gwyllt a bioamrywiaeth leol. Mae Atebion sy'n Seiliedig ar Natur ar gyfer llifogydd fel y rhain yn

flaenoriaeth allweddol i'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Strategaeth hon. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn SDCau Cymru.

### Dulliau Darparu Posibl

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu amrywiaeth o adnoddau technegol sy'n berthnasol i SDCau gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Gallant gefnogi prosiectau sy'n integreiddio rheoli llifogydd naturiol ac adfer cynefinoedd drwy weithredu SDCau ac maent yn aml yn ymwneud â gwerthuso strategaethau draenio.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau rheoli dŵr cynaliadwy drwy amrywiaeth o gynlluniau grant.
- Mae Dŵr Cymru yn bartner mawr a gall gynnig cymorth technegol i brosiectau SDCau yn enwedig mewn ardaloedd lle mae dŵr wyneb a draenio dŵr brwnt yn dod at ei gilydd. Mae hyn er mwyn lleihau'r pwysau ar gyfleusterau trin dŵr gwastraff trwy reoli dŵr wyneb yn gynaliadwy.

### Ystyriaethau Cyflawni

Mae'n bwysig i ddatblygwyr ymgynghori â gwasanaethau'r Cais Cyn Cynllunio cyn gynted â phosibl a chynnal trafodaethau â'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) ar yr un pryd. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun SDCau mwyaf cost effeithiol a hyfyw yn cael ei ddylunio. Dylid ymgynghori â nhw drwy gydol y broses a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch yr holl benderfyniadau i gynorthwyo llwyddiant y prosiect.

Bydd gwahanol fathau o ymyrraeth o ran SDCau hefyd yn gofyn am lefelau amrywiol o waith cynnal a chadw a fydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol. Er enghraifft, efallai y bydd angen lefel o waith cynnal a chadw misol ar erddi glaw er mwyn cael gwared ar sbwriel a malurion a sicrhau bod cilfachau a allfeydd yn glir. Mae'n bwysig caniatáu ar gyfer

gofynion o'r fath a sicrhau y gellir bodloni'r anghenion cynnal a chadw.

### Costau Dangosol

| Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) | Cost |
|---|---|
| Gerddi glaw (planhigion, cyrbau, cilfachau, draenio neu wagleoedd gwanhau - e.e. wrth ymyl y briffordd / llwybr troed) | |
| Gydag agregau / cyfrwng hidlo cerrig ar gyfer draenio | £200 per m$^2$ |
| Gyda chratiau plastig i greu gwagleoedd | £300 per m$^2$ |
| Pantiau / pyllau gwanhau | |
| Pantiau llystyfiant â draenio, a phibellau draenio cysylltiedig fel rhan o system fwy o faint | £115 per m$^2$ |
| Pwll naturiol gydag 'EDPM' gyda haen waelodol (bach- e.e.  500m2) | £55 per m$^2$ |
| Pwll naturiol gydag 'EDPM' gyda haen waelodol (mawr- e.e. 2000m2) | £40 per m$^2$ |
| Pwll naturiol heb leinin gan ddefnyddio clai'r safle (bach- e.e.  500m2) | £35 per m$^2$ |
| Pwll naturiol heb leinin gan ddefnyddio clai'r safle (mawr- e.e. 2000m2) | £25 per m$^2$ |
| Storfeydd llifogydd / gwlyptiroedd tymhorol bas adeiledig mewn ardaloedd trefol (pridd a byndiau wedi'u graddio, planhigion brodorol llysieuol mewn cynwysyddion) | £25 per m$^2$ |
| Storfeydd llifogydd / gwlyptiroedd tymhorol bas adeiledig mewn ardaloedd trefol (pridd a byndiau wedi'u graddio, wedi'u hau gan rywogaethau brodorol) | £10 per m$^2$ |
| SDCau (Adeiladau unigol) | |
| Casgen ddŵr ddomestig fawr | £80 |
| tanc dŵr glaw 20,000 litr | £3,000 |
| tanc dŵr glaw tanddaearol 20,000 litr | £10,000 |

| **Palmentydd hydraidd** | Cost |
|---|---|
| Palmentydd hydraidd | |
| Palmentydd hydraidd sy'n cydymffurfio â Systemau Draenio Cynaliadwy (cerddwyr) | £150 per $m^2$ |
| Palmentydd hydraidd sy'n cydymffurfio â Systemau Draenio Cynaliadwy ac sydd o'r safon flaenaf (gradd cadwraeth/cerbydau) | £215 per $m^2$ |
| Palmentydd cellog | |
| *Grasscrete* yn y fan a'r lle, 150mm o drwch, draeniad, wedi'i lenwi ag uwchbridd wedi'i raddio, wedi'i hau â chymysgedd o laswelltau sy'n deillio o ryg | £115 per $m^2$ |
| Atgyfnerthu glaswellt | |
| Pridd *Geogrid* plastig / wedi'i hau neu wedi'i lenwi ag agregau | £40 per $m^2$ |
| Codi palmentydd | |
| Gwaith meddal mewn ardaloedd tirwedd galed (ymylon metel, pridd, hadau) | £95 per $m^2$ |

## Astudiaeth Achos: Prosiect GlawLif Dŵr Cymru

Mae prosiect GlawLif Dŵr Cymru yn Llanelli yn rhan o ddull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a lleihau llifogydd yn y carthffosydd. Mae'n gwahanu dŵr glaw o'r system bresennol, gan arafu'r gyfradd y mae'n mynd i mewn i'r rhwydwaith a'i ailgyfeirio at afonydd lleol a chyrsiau dŵr. Maent wedi cwblhau 36 o brosiectau yn ardal Llanelli ers lansio'r prosiect yn 2012.



## Diogelu a Chysylltu Mannau Arfordirol

Mae ailgysylltu â'r arfordir yn ddull sy'n cefnogi defnydd dynol cynaliadwy o'r arfordir, gan warchod ei werth o ran cadwraeth natur a'i allu i wrthsefyll yr hinsawdd.

Bydd hyn yn gofyn am reoli prosesau arfordirol yn rhagweithiol i adfer ac i gysylltu'r cynefinoedd ar gyfer adar, pysgod a rhywogaethau eraill.

Mae rheoli peiriannu meddal a'r defnydd o amddiffynfeydd naturiol yn ddull mwy cynaliadwy a naturiol o reoli erydiad arfordirol a llifogydd na seilwaith caled. Cefnogir y dull hwn gan 'Cymru'r Dyfodol' – y Cynllun Cenedlaethol hyd at 2040.

Mae elfen addysgol y dull hwn yn allweddol. Mae'r *Blue Marine Foundation* yn amlygu er bod nifer gynyddol o bobl ledled y byd yn gwerthfawrogi'r cefnfor a'r heriau mae'n eu hwynebu, mae llawer o bobl wedi'u datgysylltu rhag deall hyn yn iawn. Mae hyn yn cyfyngu ar ei werth posibl.

Dylai ymyriadau reoli'r cydbwysedd rhwng pobl, natur a'r hinsawdd yn ofalus. Gallai mesurau gynnwys rheoli mynediad (amlinelliad o lwybrau beicio, rhodfeydd pren, cyfyngiadau ar gerdded cŵn ac ati), byrddau deunydd esboniadol/addysgol ac ymgysylltu. Gellir defnyddio'r rhain i lywio pobl i ffwrdd o'r cynefinoedd mwyaf sensitif.

Byddai'r dull hwn yn mynd y tu hwnt i'r dynodiadau morol unigol presennol i ddarparu dull mwy cyfannol ac integredig o stiwardiaeth o ran arfordir Sir Gaerfyrddin.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Nododd yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn 2020 y potensial ar gyfer mwy o erydiad arfordirol yng Nghymru. Byddai hyn yn effeithio ar draethau, ardaloedd rhynglanwol a nodweddion arfordirol eraill. Mae nifer fawr o eiddo eisoes mewn perygl o lifogydd oherwydd bod lefelau'r môr yn codi. I gymunedau arfordirol, mae rheoli perygl llifogydd llanwol yn hanfodol.

Mae'r ymyl arfordirol yn arbennig o bwysig i fywyd gwyllt Sir Gaerfyrddin. Mae angen i bartneriaid sicrhau bod amgylcheddau twyni tywod yn cael eu hadfywio a'u cysylltu ac nad yw glaswelltiroedd ar ben clogwyni yn mynd yn dameidiog a'u bod yn cael eu pori'n briodol. Rhaid i gynefinoedd y morfa heli gael eu rheoli mewn modd sensitif.

Y tu hwnt i'r manteision hyn, mae'r arfordir yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn ased 'creu lleoedd' allweddol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol sydd eisoes yn darparu gwerth sylweddol i'r economi ymwelwyr. Fodd bynnag, gallai wneud rhagor - drwy wneud gwelliannau i'r parth cyhoeddus, cysylltiadau cerdded a beicio gwyrdd a chysylltiadau gwell â threfi Sir Gaerfyrddin ac asedau treftadaeth eraill.

Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn argymell ehangu lefel y morfa heli a gwneud gwelliannau i dwyni tywod o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dynodedig fel Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Gallai hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i gynefinoedd arfordirol gael eu gwerthfawrogi a'u mwynhau'n gyfrifol gan gymunedau ac ymwelwyr.

### Dulliau Darparu Posibl

- Darpariaeth Mannau Agored Cyhoeddus wedi'i hintegreiddio o fewn datblygiad newydd. Bydd angen i gynigion ar gyfer pob datblygiad preswyl newydd o 5 uned neu ragor ddarparu hyn yn unol â Safonau Mannau Agored Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli'r rhan fwyaf o fannau chwarae awyr agored yn Sir Gaerfyrddin. Cyllid posibl drwy gyfraniadau datblygwyr os ydynt yn bodloni'r galw a grëwyd gan ddatblygiad cyfagos.
- Mentrau dan arweiniad y gymuned, ar lawr gwlad. Y trydydd sector, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid asedau cyhoeddus segur. Gall y rhain gaffael tir neu adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned.
- Integreiddio chwarae i raglenni adfywio canol trefi gan gynnwys Trawsnewid Trefi.

→ Mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn enwedig wrth integreiddio chwarae â natur. Gellir dod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys grantiau cymunedol penodol yma.

### Ystyriaethau Cyflawni

Bydd cyfathrebu â chymunedau lleol yn bwysig i hyrwyddo cefnogaeth ariannol gan gymunedau a hyrwyddo adfywio lleoedd arfordirol mewn modd cydlynol. Efallai y bydd angen ymgynghori i fynd i'r afael â rhagdybiaethau posibl am y prosiect. Mae cydlunio'n ffordd bwerus o oresgyn heriau o'r fath a bydd yn helpu i sicrhau stiwardiaeth hirdymor o'r ardal.

Mae hefyd yn bwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i feddwl yn wahanol am ddiogelu'r arfordir.

### Costau Dangosol

| Eitem | Cost | Cynnal a Chadw | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Meinciau / Celfi'r safle. | £901 - £1,2012 | Cost amnewid bywyd cyfan: tybiwch fod cost cyfalaf o 10-15% y flwyddyn. | Ychydig iawn o waith cynnal a chadw ac eithrio monitro fandaliaeth a hindreulio. |
| Llwybr defnydd cymysg anffurfiol (graean hunanlynol - 1.2 o led). | £90 - £180 per lin m | Cost amnewid bywyd cyfan: tybiwch fod cost cyfalaf o 10-15% y flwyddyn.. | Ychydig o waith cynnal a chadw am nifer o flynyddoedd, gan dybio nad oes unrhyw erydiad o'r môr. |
| Astudiaeth effaith ar hamdden. | £72,1123 - £120,188 | | |

Astudiaeth Achos: Rheoli planhigion ymledol dyfrol

Mae'r planhigyn ymledol dyfrol, pluen parot, wedi dod yn broblem gynyddol mewn safleoedd ger Llanelli. Gwnaeth Lleoedd Lleol ar gyfer Natur helpu i ddechrau'r gwaith rheoli ar ddau safle; Pwll Dafen a Chamlas Pen-bre.

Cymerwyd gofal arbennig i gael gwared ar y planhigyn ymledol o gyrff dŵr, yn enwedig ym Mhen-bre, sy'n gartref i'r llygod dŵr gwarchodedig. Bydd hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf i gael gwared ar y rhywogaethau ymledol.





## Darparu Llwybrau Gwyrdd ar gyfer Teithio Llesol

Dylai llwybrau cerdded a beicio gwyrdd gysylltu pobl â chyrchfannau allweddol heb gar, a hynny ar hyd 'ffyrdd gwyrdd'.

Dylai hyn annog 'newid yn nulliau teithio' tuag at ddulliau mwy llesol, trwy greu llwybrau sy'n addas i gerddwyr a beicwyr, ar gyfer teithiau hamdden a theithiau byr ymarferol (A i B) o amgylch trefi.

Llwybrau **di-draffig** yw lonydd glas sy'n ddeniadol, yn ddi-dor ac sydd fel arfer wedi'u gwahanu'n dda oddi wrth gerbydau. Dylai geisio defnyddio'r llwybrau caniataol presennol lle bo hynny'n bosibl. Er mwyn sicrhau'r cysylltedd mwyaf, dylid ei gynllunio'n strategol ac 'uno'r dotiau' rhwng cyrchfannau, ac asedau twristiaeth a threftadaeth allweddol – gan gynnwys Llwybr Arfordir y Mileniwm.

Gall llwybrau gwyrdd ar gyfer teithio llesol, a llwybrau gwyrdd â thraffig isel drwy gymdogaethau a threfi hefyd wella'n sylweddol ardaloedd sydd ag ansawdd aer amgylcheddol gwael. Gan fod seilwaith teithio llesol yn gofyn am newid cynllun mannau cyhoeddus, mae hyn yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddefnyddio dull Seilwaith Gwyrdd a Glas ac integreiddio nodweddion gwyrddu trefol llinellol o ansawdd uchel.

Gall ail-lunio'r amgylchedd fel hyn annog pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Gallai hyn fod drwy "wyrddu" y daith i'r ysgol, gwneud tripiau siopa yn hawdd ar feic, e-feic neu feic cargo, neu ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyfarfyddiadau cymdeithasol ar strydoedd.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Mae llwybrau cerdded a beicio yn mynd blith draphlith ar draws tirwedd wledig Sir Gaerfyrddin. Maent yn denu beicwyr a cherddwyr o bob cwr o'r DU i ymweld â chefn gwlad hardd y sir.

Ond, mae angen gwneud rhagor i wneud y llwybrau'n fwy gwyrdd ac yn fwy diogel. Mae angen gwaith hefyd i gysylltu'r llwybrau trwy drefi Sir Gaerfyrddin ac i lunio canol trefi lle mae'n haws cerdded. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Adeiladu Lleoedd Gwell (2020).

Byddai hyn o fudd i drigolion lleol, gan eu helpu i gael mynediad i'r tirweddau cyfagos fel adnodd llesiant. Byddai hefyd yn arddangos yr ystod o weithgareddau i ymwelwyr eu gwneud mewn mannau llai cyfarwydd ym mhentrefi croesawgar a threfi marchnad lliwgar Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Strategaeth hon yn sefydlu bod amrywiadau sylweddol o ran iechyd a llesiant ar draws de-orllewin Cymru. Hefyd mae lefelau isel o gerdded a beicio.

Mae llwybrau cerdded a beicio gwyrdd yn gam pwysig i gynyddu nifer y teithiau cymudo a wneir ar feic ac ar droed ac i ddarparu mynediad mwy cyfartal i wasanaethau.

Mae Llwybr Dyffryn Tywi'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'n dilyn yr hen drac rheilffordd rhwng Caerfyrddin a Llandeilo, gan ei drawsnewid yn atyniad hamdden ac atyniad i ymwelwyr. Ar ôl ei orffen, bydd llwybr di-draffig 16 milltir ar gyfer cerdded a beicio a fydd yn cydredeg i raddau helaeth iawn ag afon Tywi.

### Dulliau Darparu Posibl

- ➔ Dylid cynnwys cysylltiad â llwybrau teithio llesol mewn datblygiadau newydd a dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol.
- ➔ Bydd cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned yn hanfodol oherwydd gallent fod yn rheoli neu'n berchen ar rai o'r mannau sydd wedi'u cynnwys yn y llwybr teithio llesol arfaethedig.

## Ystyriaethau Cyflawni

Bydd cyfathrebu â chymunedau lleol yn bwysig er mwyn gallu darparu llwybrau teithio llesol sydd wedi'u hintegreiddio i'r cymunedau ehangach. Gall hyn helpu i fynd i'r afael â rhagdybiaethau posibl am y llwybrau arfaethedig a helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cydlunio'n ffordd bwerus o oresgyn heriau o'r fath a bydd yn helpu i gynyddu'r tebygolrwydd o'r mannau'n cael eu derbyn gan y gymuned. Pethau eraill i'w hystyried wrth sefydlu llwybr teithio llesol yw cynnal a chadw, a diogelwch trwy ddylunio.

## Costau Dangosol

| Coridorau teithio llesol | Cost (fesul km) |
|---|---|
| Llwybrau integredig / gwelliannau i'r priffyrdd / llwybrau troed presennol | £0.3m - £0.5m |
| Llwybrau teithio llesol wedi'u gwahanu'n llawn oddi wrth ffyrdd | £1.2 -1.5m |
| Wedi'u gwahanu'n rhannol (cymysgedd o lwybrau ar y ffordd / oddi ar y ffordd) | £0.8m - £1m |
| Gwelliannau / uwchraddio hawliau tramwy cyhoeddus presennol - arwynebau | £150-180k |
| Cynllun arwyddion llwybrau | £15-20k |

## Astudiaeth Achos: Parc Pontyberem

Mae creu llwybr cyd-ddefnyddio newydd drwy Barc Pontyberem yn gysylltwr allweddol ar gyfer y gymuned leol. Mae'r llwybr yn cysylltu'r ysgol leol â'r Neuadd Goffa sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd a phlant ysgol i deithio'n ddiogel, gan hyrwyddo dulliau teithio llesol yn ogystal â gwella hygyrchedd.



## Adfer Coridorau Glas

Fel Ateb Seiliedig ar Natur a dull rheoli llifogydd yn naturiol (NFM), gall coridorau afonydd ac adfer gwlyptiroedd ddarparu mwy o allu i wrthsefyll effaith ein hinsawdd newidiol.

Mae'r manteision lluosog a ddarperir gan y dull hwn yn cynnwys lleihau perygl llifogydd (trwy arafu llif dŵr trwy wlyptiroedd), hidlo dŵr a storio carbon. Gall hefyd wella a chysylltu'r cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau o blanhigion, pryfed, amffibiaid, ymlusgiaid, pysgod, adar a mamaliaid.

Mae creu gwlyptiroedd hefyd yn darparu cyfleoedd i annog hamdden a darparu mynediad gwerthfawr i dirweddau a thirwedd dŵr naturiol. Dylid blaenoriaethu technegau sy'n annog cyn lleied o ymyrraeth â phosibl a hunanadfer cynefinoedd trwy brosesau naturiol, yn hytrach na strwythurau neu addasiadau artiffisial.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Yn Sir Gaerfyrddin, mae newidiadau mewn patrymau tywydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn bryderon sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys llifogydd llanwol ac afonol.

O ganlyniad, mae angen inni ailystyried y gwaith o reoli ein cymunedau arfordirol ac ar lan yr afon er mwyn lleihau perygl llifogydd a gwella bioamrywiaeth.

Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal lle mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth yn bennaf mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, nid yw twf mewn ffermio a dulliau ffermio dwys wedi cael buddsoddiad cyfatebol mewn rheoli coridor dŵr ac afonydd.

Mae gan rai o afonydd Sir Gaerfyrddin grynodiadau maetholion uchel, yn enwedig ffosffadau. Mae hyn yn deillio o gyfuniad o wrteithiau ffermio a gwaith trin carthffosiaeth, ymhlith ffactorau eraill. Mae gwlyptiroedd yn cynnig cyfle i storio'r maetholion hyn a'u dychwelyd i'r pridd.

Mae harddwch naturiol afonydd Sir Gaerfyrddin hefyd yn atyniad i dwristiaid ac yn rhan bwysig o fywyd lleol ac o ran ymdeimlad o le. Bydd diogelu a gwella coridorau afonydd ac ailgysylltu trefi â'u coridorau glas yn helpu i gynnal yr adnodd pwysig hwn.

## Ystyriaethau Cyflawni

Mae nifer o ystyriaethau cyflawni y dylid eu trafod cyn ymyrryd. Dylid dewis safleoedd yn ofalus yn seiliedig ar bwysigrwydd ecolegol a'r fioamrywiaeth sydd yno eisoes. Dylai unrhyw ymyriadau wella cynefinoedd a chaniatáu i rywogaethau symud yn ddirwystr ar draws y coridor.

Dylid blaenoriaethu strategaethau sy'n golygu bod y coridor glas yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well, fel llifogydd, a sychder.

Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysg yn allweddol o ran cynnwys cymunedau lleol yn gynnar yn y broses o ddylunio, monitro a chasglu data a all gefnogi stiwardiaeth y prosiect.

## Dulliau Darparu Posibl

- Cydweithio â'r Cynghorau Tref a Chymuned lleol.
- Ymgysylltu â'r sector amaethyddol i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dir ar hyd coridorau afonydd a lleihau llygredd trwy leihau dŵr ffo o dir amaethyddol.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bartner allweddol o ran rheoli adnoddau dŵr, gwella bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd naturiol. Maent yn darparu nifer o wasanaethau pwysig gan gynnwys cymorth technegol, cyllid a rheolaeth.
- Efallai y bydd gan grwpiau cadwraeth lleol ddiddordeb mewn cefnogi ymdrechion i adfer coridorau glas.



## Costau Dangosol

| Coridorau gwlyptiroedd ac afonydd | Cost |
|---|---|
| Dadsianelu cyrsiau dŵr / adfer ystumiau afon cyrsiau dŵr (costau sylweddol amrywiol yn dibynnu ar leoliad / y gwaith peirianneg bresennol. | £500-£1,500 per lin m |
| Creu barrau crychdonnau a barrau pwynt drwy ddefnyddio haenau o raean | £105 per m$^2$ |
| Adfer glannau afonydd i greu cynefinoedd bywyd gwyllt | £35 per m$^2$ |
| Sefydlu /sefydlogi gwrthgloddiau/rholiau rhisgl coconyt ar lannau afonydd | £180 per lin m |
| Gosod argae sy'n gollwng | £500 - £1,000 |
| Llwybr deunydd esboniadol | £15-£20k per km |
| Arwyddion cyfeirio | £150-£175 |

## Astudiaeth Achos: Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi lansio menter aml-flwyddyn gyda'r nod o wella'r gwaith o reoli dŵr yn nalgylch Teifi. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori sylweddol â rhanddeiliaid gan gynnwys undebau ffermio ac Awdurdodau Lleol. Mae'r prosiect yn ceisio meddwl yn wahanol a defnyddio atebion arloesol i ganolbwyntio ar sut y gellir dangos gwerth ac ychwanegedd. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn datblygu model 'arferion gorau' y gellir ei ailadrodd mewn mannau eraill.



## Ailystyried Swyddogaethau Parciau a Llecynnau Glas

Yn rhy aml, mae parciau a mannau gwyrdd wedi'u cynllunio gydag un swyddogaeth mewn golwg. Yn enwedig o ystyried prinder mannau agored, mae angen dechrau darparu mannau agored mwy amlbwrpas. Gallai'r swyddogaethau hynny gynnwys gwerth bioamrywiaeth, cynhyrchu ynni, chwarae naturiol, hamdden a storio dŵr llifogydd.

Mae'r mannau gwyrdd hyn i'w gweld ar raddfeydd amrywiol – o Barciau Gwledig i ymylon ffyrdd a chylchfannau. Mae hefyd yn cynnwys tiroedd ysgolion a mannau preifat fel cyrsiau golff a gerddi preifat.

Gall un dull allweddol o gynyddu gwerth bioamrywiaeth gynnwys newid y cyfundrefnau torri profa o fewn ardaloedd glaswellt presennol i ganiatáu ar gyfer cynefinoedd a blodau gwyllt mwy 'gwyllt'. Gall hyn ddarparu cynefinoedd i bryfed, adar a mamaliaid a helpu i fynd i'r afael â'r dirywiad parhaus mewn pryfed peillio.

Yn syml iawn, trwy adael i laswellt dyfu'n uchel drwy newid y trefniadau torri, lleihau'r defnydd o wrtaith a phlaleiddiaid, a hau hadau blodau gwyllt; Gellir annog glaswelltau a blodau gwyllt i flodeuo a hau mannau glaswelltog agored.

Hefyd mae sylw cynyddol i'r defnydd o fannau gwyrdd ar gyfer storio dŵr mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd uchel, fel rhan o strategaeth i greu 'trefi sbwng' fel ateb sy'n seiliedig ar natur i allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

### Pam mae hyn yn bwysig i Sir Gaerfyrddin?

Gall mannau gwyrdd presennol Sir Gaerfyrddin wneud rhagor i ddarparu sawl swyddogaeth a fyddai'n cryfhau rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.



Mae perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin yn bryder sylweddol. Mae hyn yn golygu bod angen i'r sir nodi pa rannau o'r tir y gellir eu defnyddio i amsugno dŵr llifogydd (SDCau) er mwyn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well (gweler yr offeryn "Codi palmentydd a chreu gerddi glaw").

Mae bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn bryder sylweddol arall. Yn benodol, mae Cynllun Gweithredu 2013 ar gyfer pryfed peillio yng Nghymru yn tynnu sylw at iechyd gwenyn a phryfed peillio a'r ffaith bod eu poblogaethau'n dirywio, ac mae hyn wedi cael ei amlygu fwyfwy fel testun pryder. Mae hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan ddefnydd tir dwys, dinistrio a darnio cynefinoedd, clefydau, y defnydd o agrogemegau, a newid yn yr hinsawdd.

Byddai adfer y ddôl a'r cynefinoedd blodau gwyllt yn creu 'coridorau bioamrywiaeth' hanfodol yn ogystal ag ychwanegu ychydig o liw i ardaloedd trefol, gan gyfrannu at well 'ymdeimlad o le'.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin eisoes wedi gwneud peth gwaith i gefnogi pryfed peillio, gan gynnwys ar ymylon ffyrdd o ran 'toriad hwyr'. Mae posibilrwydd y gellir defnyddio'r dull hwn yn ehangach.

Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, ynghyd â phreswylwyr lleol, ym Mharc Dŵr y Sandy yn Llanelli wedi gwella'r llecynnau gwyrdd lleol ar gyfer pryfed peillio.

### Ystyriaethau Cyflawni

Wrth weithredu ymyriadau megis newid y cyfundrefnau torri porfa, mae'n bwysig rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r arferion a'r rhesymeg y tu ôl iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r ymyrraeth.

Bydd angen i adran priffyrdd yr ALl ymgynghori ynghylch rhai ymyriadau a'u cymeradwyo, gan sicrhau bod yr ymyrraeth arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion diogelwch ar y ffyrdd.

## Dulliau Darparu Posibl

- Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n rheoli rhai parciau a mannau gwyrdd.
- Mentrau dan arweiniad y gymuned, ar lawr gwlad. Y trydydd sector, busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid asedau cyhoeddus segur. Gall y rhain gaffael tir neu adeiladau sy'n eiddo cyhoeddus trwy Drosglwyddo Asedau i'r Gymuned.
- Mentrau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, yn enwedig wrth integreiddio chwarae ac addysg â gwella natur. Gellir dod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill gan gynnwys grantiau cymunedol penodol yma

### Costau Dangosol

| Eitem | Cost | Cynnal a Chadw | Stwadau |
|---|---|---|---|
| Creu glaswelltir / dolydd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau. | £2,404- £8,413 per ha | £721- £962 per ha | Costau sy'n gyslltiedig a threfn gyfyngedig o dorri porfa. |
| Bwydd deunydd esboniadol. | £3,005 | Cost amnewid bywyd cyfantybiwch for cost cyfalaf o 10-15% y flwyddyn | Ychydig iawn o waith cynnal a chadw ac eithrio monitor fandaliaeth a hindreulio. |

### Astudiaeth Achos: Plannu gwrychoedd

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi bod yn gweithio i blannu gwrychoedd newydd ar draws y sir sydd wedi'u plannu i greu clustogfeydd naturiol o ran yr olygfa a llygredd sŵn ger ffyrdd. Maent hefyd yn gynefinoedd gwych ar gyfer bioamrywiaeth a bach iawn yw'r gwaith cynnal a chadw.

